Mae'r cynghorwyr wedi ystyried ein prosesau rheoli perfformiad a'n trefniadau adrodd; wedi cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer arfarnu staff a'r polisiau a'r systemau talu staff; wedi cynnal trosolwg beirniadol o reolaethau ariannol y Comisiwn a'r weithdrefn rheoli risg; ac mae rhai cynghorwyr wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am ein cynghorwyr annibynnol i'w gweld yn yr adran 'Adroddiad ar daliadau a staff' ar dudalen 86 o'r adroddiad hwn.



Crynodeb o berfformiad yn tynnu sylw at flwyddyn o newid

Y cyd-destun ar gyfer y Pumed Cynulliad

Cynlluniwyd a datblygwyd rhaglen dros 18 mis i gyflawni ar uchelgais i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn trawsnewid yn effeithiol i'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016.

Cynhaliwyd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai. O blith y 60 o Aelodau a gafodd eu hethol i'r Pumed Cynulliad, roedd 38 wedi bod yn Aelodau yn y Cynulliad blaenorol. Dewisodd etholwyr Cymru 22 o Aelodau newydd; roedd un ohonynt wedi cael ei ethol i'r Cynulliad o'r blaen, ac roedd un blaid wleidyddol newydd yn cael ei chynrychioli yn y Cynulliad, sef Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig.

Y canlyniadau:

Llafur Cymru – 29 Aelod Cynulliad

Plaid Cymru – 12 Aelod Cynulliad

Ceidwadwyr Cymreig – 11 Aelod Cynulliad

Plaid Annibyniaeth y DU – 7 Aelod Cynulliad

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – 1 Aelod Cynulliad

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd un Aelod Cynulliad o Blaid Annibyniaeth y DU ac un o Blaid Cymru eu grwpiau i ddod yn Aelodau annibynnol. Yn fwy diweddar gadawodd Aelod Cynulliad arall Blaid Annibyniaeth y DU i ymuno â Grŵp Ceidwadol y Cynulliad.

Trefniadau cynefino a chroesawu

Trefnwyd sesiynau croesawu yn ystod y digwyddiad cymryd llw, a gynhaliwyd dros dridiau yn syth ar ôl yr etholiad, gan ddechrau ar ddydd Gwener 6 Mai. Yn sgil hyn, gallai Aelodau newydd a'r rhai a gafodd eu hailethol ddechrau ar eu gwaith yn gyflym.

Cymerodd y rhan fwyaf o'r Aelodau y llw yn y Siambr. Gwnaed darpariaeth hefyd i Aelodau yng ngogledd Cymru a gorllewin Cymru, a manteisiodd nifer ar y cyfle hwnnw. Roedd tywyswyr staff ar draws y sefydliad wrth law i helpu'r rhai a oedd newydd gael eu hethol i gael y cymorth a'r cyngor a oedd ei angen arnynt ar y dechrau'n deg, ac i sicrhau bod yr Aelodau a gafodd eu hailethol yn gallu dechrau ar eu gwaith yn brydlon.

Roedd rhaglen wedi'i theilwra o sesiynau croeso, sesiynau cynefino a sesiynau dilynol ar gael. Nod y rhaglen oedd rhoi gwybodaeth berthnasol ar yr adeg iawn i'r rhai a oedd newydd gael eu hethol – gan adlewyrchu'r gweithgareddau a'r blaenoriaethau yr oedd yr Aelodau'n debygol o'u hwynebu yn ystod yr wythnosau cyntaf. Mae rhagor o wybodaeth am y croeso, y trefniadau cynefino a'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i'w gweld ar dudalennau 22.

Cyfarfodydd cyntaf Pumed Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Strategaeth Comisiwn y Cynulliad

Ar ôl penodi Comisiwn y Cynulliad ym mis Mehefin, cyfarfu'r Comisiynwyr yn rheolaidd i gytuno ar drefniadau llywodraethu a gweithdrefnau gweithredu, eu blaenoriaethau strategol a strategaeth y gyllideb ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn ogystal â'r portffolio o gyfrifoldebau ar gyfer pob Comisiynydd.

Roedd trefniadau diogelwch gwell ar gyfer yr Aelodau a sesiynau briffio manwl ar effaith refferendwm yr UE hefyd yn feysydd â blaenoriaeth a ystyriwyd gan y Comisiwn. Roedd cael y trefniadau hyn ar waith yn ystod wythnosau cyntaf tymor y Cynulliad yn darparu'r cyfeiriad strategol i'n galluogi i ganolbwyntio ar ddarparu ein gwasanaethau.

Mae manylion am Gomisiwn y Cynulliad, ei gyfrifoldebau a'i nodau strategol i'w gweld ar dudalennau 10 – 15 o'r adroddiad hwn. Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad yn yr adroddiad hwn yn rhoi manylion am y meysydd â blaenoriaeth o dan bob un o'r nodau strategol a'r gwaith sydd wedi'i wneud drwy gydol y flwyddyn i'w symud ymlaen.

Gosod llwybr i'r dyfodol

Ar 7 Mehefin 2016 cyflwynwyd Bil Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Roedd yn dilyn cyhoeddi'r Bil drafft ym mis Hydref y flwyddyn flaenorol, a oedd yn destun gwaith craffu cyn deddfu gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad a Phwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan. Ar ôl ystyried Bil Cymru yn nau Dŷ'r Senedd, pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 17 Ionawr 2017 i gymeradwyo darpariaethau Bil Cymru. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol, daeth yn Ddeddf Cymru ar 31 Ionawr 2017.

Mae Deddf Cymru yn cydnabod natur barhaol y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru; yn newid y setliad datganoli i fodel cadw pwerau ac, yn arbennig, yn rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol reoli ei drefniadau mewnol gan gynnwys ei enw, ei faint, ei weithdrefnau a'i systemau etholiadol.

Mae'r pwerau a ddarparwyd yn Neddf Cymru wedi ein galluogi i archwilio ystod o uchelgeisiau. Yn dilyn dadl yn y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2016, rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar raddfa fawr ar newid enw'r Cynulliad.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ym mis Tachwedd 2016 y byddwn yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â chynyddu maint y Cynulliad, gan adeiladu ar waith a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar sail drawsbleidiol, gan fanteisio ar gyngor niwtral, arbenigol.

Ochr yn ochr â'r ymrwymiad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi dwy fenter fawr ymgysylltu â'r cyhoedd ar 14 Tachwedd 2016:

- sefydlu **Senedd Ieuenctid i Gymru**, a gaiff ei chefnogi a'i hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad
- sefydlu **Tasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol**.

Yn sgil y cynnydd yng ngweithgarwch y pwyllgorau ers yr etholiad, rydym wedi ailwampio llawr gwaelod Tŷ Hywel. Bellach, mae gennym bump ystafell bwyllgor yn lle pedair, ynghyd â'r holl offer anghenrheidiol. Rydym yn parhau i ystyried nifer o opsiynau er mwyn sicrhau y gellir diwallu ein hanghenion o ran yr adeilad yn y dyfodol.

Ar 14 Tachwedd 2016 dywedodd y Llywydd fel a ganlyn:



Mae'r Comisiwn yn gwneud y penderfyniadau angenrheidiol i wneud ein senedd yn addas ar gyfer y dyfodol – gan roi llais i bobl ifanc yn ein democratiaeth, cyfathrebu'n effeithiol â'r cyhoedd a chyflawni ei ddyletswydd statudol i alluogi'r Cynulliad i ymgymryd â'i waith deddfwriaethol a'i waith craffu.

Wedi archwilio capasiti'r Cynulliad dro ar ôl tro, dangoswyd ei fod o dan bwysau mawr o ystyried maint ei bwerau deddfu a'i bwerau cyllidol. Mae maint yr heriau sy'n ein hwynebu yn golygu bod rhaid i'r Comisiwn fod yn ddigon dewr i gymryd camau pendant. Pe byddai Bil Cymru yn cael ei basio, a'r Cynulliad yn penderfynu arfer ei bwerau deddfwriaethol newydd yn y maes hwn, rydym yn benderfynol o wneud yr hyn sy'n angenrheidiol i roi'r gallu i'n Senedd gyflawni democratiaeth gref a chynaliadwy i Gymru.

Penodi Prif Weithredwr a Chlerc newydd

Yn sgil ymddeoliad Claire Clancy ar ôl gwasanaethu am ddegawd fel Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, dechreuwyd ar broses i benodi ei holnydd yn ystod tymor yr hydref 2016. Dyma'r uchaf o staff Comisiwn y Cynulliad. Y Prif Weithredwr yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r sefydliad, ac mae'n hyrwyddo enw da'r Cynulliad o fewn Cymru a thu hwnt fel democratiaeth hygyrch ac effeithlon. Ar ôl proses recriwtio gystadleuol a thrwyadl, penodwyd Manon Antoniazzi ar 25 Ionawr 2017, a dechreuodd yn y swydd ym mis Ebrill.



Claire Clancy



Manon Antoniazzi

- ▼ Agorwyd y Pumed Cynulliad yn swyddogol ar 7 Mehefin 2016, ac roedd y Senedd yn ganolbwynt i sylw'r genedl.



Ein perfformiad: Dadansoddiad



Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Arloesi a theilwra ein gwasanaethau er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'r Aelodau, gan fanteisio ar dechnoleg

Datblygiad proffesiynol wedi'i arwain gan anghenion i'r Aelodau a'u staff cymorth

Cafodd rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau croesawu a chynefino ei rhoi ar waith ar gyfer dechrau'r Pumed Cynulliad. Roedd trefniadau croesawu am dridiau yn syth ar ôl yr etholiad er mwyn sicrhau y gallai'r Aelodau ddechrau gweithio yn gyflym ac roeddent yn siop-un-stop o wybodaeth hanfodol ar eu cyfer.

Roedd staff ar draws y sefydliad ar gael i helpu'r rhai a oedd newydd eu hethol i gael y cymorth a'r cyngor a oedd ei angen arnynt ar y dechrau'n deg, ac i sicrhau bod yr Aelodau a oedd wedi'u haillethol yn gallu dechrau ar eu gwaith yn brydlon. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i'r trefniadau hyn ar gyfer croesawu'r Aelodau.

Anogwyd yr Aelodau a oedd newydd eu hethol i fynd i'r sesiynau cynefino ac aeth pob un o'r 22 Aelod newydd i'r sesiynau a ganlyn:

- Y Siambr a busnes cynnar (gan gynnwys hyfforddiant ar system TGCh y Siambr);
- Sesiwn friffio ar safonau ymddygiad; a
- Sefydlu eich swyddfa – cyngor ar staffio, lwfansau a'r paramedrau cyfreithiol o ran trin gwaith achos.

Roedd rhaglen wedi'i theilwra o sesiynau dilynol ar gael hefyd. Roedd cynnwys ac amserlen y rhaglen gynefino ddilynol yn amrywio yn ôl anghenion pob grŵp gwleidyddol. Nod y rhaglen oedd rhoi gwybodaeth berthnasol ar yr adeg iawn i'r rhai a oedd newydd eu hethol. Roedd Aelodau unigol a phob grŵp plaid wedi cyfrannu'n sylweddol i'r cynnwys er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cefnogi'r gweithgareddau a'r blaenoriaethau yr oedd yr Aelodau yn eu hwynebu yn ystod yr wythnosau cyntaf. Dyma rai ohonynt:

- Wythnos 1: Dechrau arni a deall sut y mae'r Cynulliad yn gweithio (gweler uchod);
- Wythnosau 2-4: Sefydlu swyddfa (sesiynau cynefino ar gymorth ar gyfer ymdrin â gwaith achos, rheoli gwybodaeth, gweithio'n ddwyieithog, cyflwyno busnes a busnes y siambr);
- Wythnosau 5-8: Busnes fel arfer (sesiynau'n cynnwys sesiynau briffio pwnc ar gyfer gwaith achos, Biliau Aelodau, diogelwch).

Roedd y sesiynau dilynol a gynhaliwyd yn ystod wythnosau 2-8 yn hyblyg ac wedi'u trefnu ar gyfer unigolion neu grwpiau bach o Aelodau, yn ôl anghenion penodol. Roeddent yn cynnwys sesiynau briffio ar ddiogelwch a gweithio'n ddiogel, cyflwyno busnes, busnes y siambr, ymchwil a chymorth cyfreithiol, papurau briffio gan y gwasanaeth ymchwil ar faterion sy'n codi fel rhan o waith achos, deddfwriaeth a gwneud deddfau, a gweithio'n ddwyieithog.

Darparwyd sesiynau cynefino rheolaidd hefyd i staff a benodwyd gan yr Aelodau. Mae'r rhain yn parhau i gael eu darparu yn rheolaidd, yn ogystal â sesiynau hyfforddi neu friffio mwy manwl ar faterion perthnasol.

Yn syth ar ôl y sesiynau cynefino, cynigiwyd rhaglen o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, a chymerodd nifer fawr o Aelodau a'u staff cymorth ran ynddi yn ystod y flwyddyn. Ers mis Mai 2016, mae 44 o'r 60 Aelod a 162 o'r tua 250 o staff cymorth wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r rhaglen yn adeiladu ac yn esblygu yn unol â'r anghenion a nodwyd gan Aelodau unigol, grwpiau gwleidyddol neu staff cymorth, ac mae'n adlewyrchu agweddau gwahanol ar rôl yr Aelod a'r gwaith a wneir gan eu staff sy'n eu cefnogi yn y rolau hynny.


Roedd gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cynllunio pwyllgorau a sesiynau strategaeth, cwestiynu effeithiol, craffu ar ddeddfwriaeth ac ymdrin â gwelliannau, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, arweinyddiaeth a rheolaeth, ymdrin â gwaith achos a briffiau amserol (er enghraifft, ar adael yr Undeb Ewropeaidd).

Mae'r ddarpariaeth wedi'i theilwra, mae'n hyblyg ac ar sawl ffurf, gan gynnwys sesiynau briffio byr un-i-un yn bersonol neu drwy ddefnyddio technoleg, sesiynau pwyllgor a sesiynau ar gyfer grwpiau o Aelodau, grwpiau o staff neu'r ddau. Cânt eu cyflwyno gan arbenigwyr mewnol neu allanol fel y bo'n briodol.


Mae'r adborth yn gadarnhaol iawn ac mae'r lefelau o ymgysylltu yn uchel, gyda 97.74 y cant o'r rhai a roddodd adborth yn credu y bydd cymryd rhan yn y gweithgareddau yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus ers mis Mai 2016:

MAE **97.74%** YN TEIMLO Y BYDD Y GWEITHGAREDDAU YN CAEL EFFAITH GADARNHAOL AR EU **GWAITH**



MAE **162** O (TUA) **250** STAFF CYMORTH AELODAU'R CYNULLIAD WEDI CYMRYD RHAN MEWN RHYW FATH O **DDATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS**



MAE **44** O'R **60** AELOD WEDI CYMRYD RHAN MEWN RHYW FATH O DDATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

Busnes y Cynulliad

Yn ystod 2015-16, bu Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli eu hetholwyr ac yn craffu ar bolisi, deddfwriaeth a gwariant y Llywodraeth mewn cyfarfodydd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn yn wythnosol.

 **7** DADL AELODAU
UNIGOL

114
ADRODDIAD
PWYLLGOR 

 **122**
CWESTIYNAU
BRYN

 **63** **CYFARFOD**
LLAWN

281
CYFARFOD
PWYLLGOR 

Rhoi arweiniad i ddarparu cefnogaeth o'r radd flaenaf ar gyfer yr Aelodau yn eu rôl graffu gan ymateb i'r Pwyllgor Busnes a gweithio gydag ef

Ers dechrau'r Pumed Cynulliad, mae staff y Comisiwn wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno nifer o gyfleoedd newydd i'r Aelodau gyflawni eu rôl craffu yn nhrefodion y Cyfarfod Llawn, ac mae'r trefniadau ar gyfer rhai cyfleoedd presennol hefyd wedi cael eu haddasu i'w gwneud yn fwy hygyrch. O ganlyniad i hyn:

- gall cadeiryddion pwyllgorau bellach wneud datganiad mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar waith eu pwyllgor: gan gynnwys lansio ymchwiliad, adroddiad cynnydd yn ystod ymchwiliad, neu nodi eu blaenoriaethau fel pwyllgor;
- mae datganiadau 90 eiliad wedi'u cyflwyno fel ffordd o alluogi'r Aelodau i wneud datganiad byr, ffeithiol, personol. Gellir eu defnyddio i dynnu sylw at unrhyw bwnc sy'n destun pryder. Er enghraifft, gall yr Aelodau godi materion sy'n peri pryder mawr i'w hetholwyr, tynnu sylw at broblemau lleol, nodi dyddiadau arwyddocaol, neu dalu teyrnged i rywun;
- unwaith bob hanner tymor caiff slot ei ddyrannu i drafod cynigion deddfwriaethol Aelod unigol. Gellir cynnig unrhyw fath o ddeddfwriaeth newydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan gynnwys Biliau, Offerynnau Statudol, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, a threthi datganoledig newydd;
- cynhelir dadleuon gan Aelodau unigol bob yn ail wythnos. Dadleuon awr o hyd yw'r rhain fel arfer ac maent yn ystyried cynigion sy'n canolbwyntio ar faterion o arwyddocâd arbennig. Byddant yn debygol o ysgogi dadl fywiog yn y Siambr, ac mae'r Aelodau'n llai tebygol o ymrannu'n ôl safbwynt eu pleidiau; ac
- ar ôl sefydlu'r system bwyllgorau, a oedd yn cynnwys dau bwyllgor ychwanegol, ysgrifennodd y Llywydd at bob cadeirydd yn nodi disgwyliadau'r Cynulliad ac yn eu gwahodd i gyfarfod yn rheolaidd fel Fforwm y Cadeiryddion i gynnal trosolwg strategol ar y cyd o'r gwaith craffu ar bwyllgorau. Cafodd gwasanaethau'r Comisiwn eu hailgyflunio a'u hehangu i ddiwallu anghenion y pwyllgorau newydd.

Astudiaeth achos: Nodi anghenion amrywiol yr Aelodau, eu staff a'r grwpiau wrth eu craidd

Fel deddfwrfa fach, rydym yn parhau i ymgysylltu â'r Aelodau unigol i drafod eu dewisiadau ac yna gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau yn cyd-fynd â'r anghenion unigol hynny.

Yn ystod haf 2016 cynhaliwyd adolygiad o'r arolwg boddhad ar gyfer yr Aelodau a staff cymorth er mwyn gwella'r arolwg presennol.

Lansiwyd yr arolwg diweddaraf ym mis Chwefror 2017, ac roedd ar agor am bedair wythnos. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ymhlith yr Aelodau a'r staff cymorth a chynhaliwyd nifer o ymweliadau â swyddfeydd i wella lefelau ymgysylltu â staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r arolwg yn rhoi darlun cadarnhaol o'r gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu i'r Aelodau a'u staff. Pan fo ymatebwyr unigol wedi codi pryderon penodol ac wedi darparu eu manylion cyswllt, mae'r rhain yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau ein bod yn deall y materion yn llawn ac y gallwn ymdrin â hwy yn unol â hynny. Mae rhagor o fanylion yn adran y Crynodeb o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (tudalen 62).





Gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg er budd yr Aelodau, gan gynyddu'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael.

Gwnaed sawl darn o waith i uwchraddio ein gallu o ran technoleg gwybodaeth a chyfathrebu eleni. Drwy'r cyfnod diddymu, cyn yr etholiad yn 2016, cyflwynodd y tîm TGCh brosiect sy'n disodli'r system feddalwedd yn y siambr. Roedd hyn yn dileu ein dibyniaeth ar y system Medialon ac yn gwella sut y mae gwybodaeth a dogfennau a ddefnyddir gan yr Aelodau a thîm y Siambr yn cael eu cyflwyno yn ystod y Cyfarfod Llawn. Mae'r system newydd yn fwy gwydn, yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac wedi cael ei hadeiladu o amgylch anghenion yr Aelodau a staff sy'n cefnogi busnes y Cyfarfod Llawn. Mae'r prosiect hwn hefyd wedi cyflwyno caledwedd cyfrifiadurol newydd yn y Siambr, gan ddarparu sgriniau a chyfrifiaduron newydd i'r Aelodau a'r staff cymorth ynghyd â chynllun desgiau gwell.

Yn dilyn yr etholiad yn 2016, gwnaethom newid ein dull o ddarparu offer TGCh i alluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i gyflawni eu swyddogaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac ar y llwyfannau mwyaf addas. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod yr Aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd yn gallu dechrau gweithio yn syth ar ôl yr etholiad.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein defnydd o wasanaethau cwmwl TGCh fel agwedd bwysig ar Strategaeth TGCh y Comisiwn. Mae prosiect i ddarparu Microsoft Office 365 wedi darparu'r Aelodau a'u staff cymorth gyda negeseuon e-bost a ffeiliau wedi'u storio mewn cwmwl, gan wella hygyrchedd ar-lein a dibynadwyedd gwasanaethau. Caiff llwyfan Office 365 ei ddefnyddio ymhellach er mwyn rhoi mynediad at fwy o gymwysiadau a gwasanaethau ar-lein i'r Aelodau, wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion penodol.

Darparu system effeithiol ac effeithlon o gadw, adalw, chwilio a manteisio i'r eithaf ar wybodaeth hanesyddol y Cynulliad ac yn y dyfodol.

Fel un ymateb i'r newid yn y modd y mae pobl yn ymgysylltu â'r amgylchedd gwleidyddol, gan gynnwys galwadau am dryloywder a hygyrchedd gwybodaeth am yr Aelodau a'u gwaith, rydym wedi cytuno i weithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i sicrhau y caiff archifau'r Cynulliad eu cadw dros y tymor hir.

Mae'r ddau sefydliad wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu strategaeth archif i'r Cynulliad, i'w chyflwyno yn 2017. Mae'r gwaith yn cael ei hwyluso gan ddau archifydd profiadol sydd wedi cael eu penodi gan y Llyfrgell Genedlaethol, a ariennir gan Gomisiwn y Cynulliad, i weithio yn gyfan gwbl ar y prosiect hwn. Bydd eu gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gofnodion busnes Comisiwn y Cynulliad.

Drwy'r bartneriaeth, bydd archif a chofnodion hanesyddol hynod arwyddocaol Comisiwn y Cynulliad yn dechrau cael eu trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol, a byddant ar gael yn ddigidol ar y rhyngwyd er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr presennol ac ymchwilwyr y dyfodol weld ein cofnodion seneddol yn hygyrch ac y gellir eu chwilio'n hawdd, er mwyn ein helpu i ddweud hanes ein deddfwrfa ddatganoledig.

Defnyddio arbenigedd allanol

Mae gwneud mwy o ddefnydd o arbenigedd academiaidd i gefnogi polisi a gwaith craffu deddfwriaethol y Cynulliad yn ein helpu i gyflawni ein nodau strategol o ddarparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ac ymgysylltu â holl bobl Cymru. Ochr yn ochr â'r mentrau presennol, rydym wedi datblygu cynllun ymgysylltu academiaidd ac rydym yn treialu amryw weithgareddau newydd i ddefnyddio arbenigedd allanol.

Cyflwynwyd cyfres o seminarau 'Cyfnewid Syniadau' ar gyfer yr Aelodau a rhanddeiliaid. Mae'r seminarau hyn yn dwyn ynghyd academyddion ac arbenigwyr eraill ar bwnc penodol a'r nod yw dod â syniadau newydd, tystiolaeth ymchwil a thrafodaethau i sylw'r Aelodau a'u staff. Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru i dreialu hyn a threfnwyd tair seminar ar gyfer hanner cyntaf 2017 gyda thema gyffredinol yn ymwneud â pha mor uchelgeisiol y dylai polisiâu Cymru fod.

Rydym hefyd wedi trefnu cynllun peilot cymrodoriaeth er mwyn galluogi uwch-academyddion i dreulio cyfnod yn y Cynulliad yn gweithio ar brosiect penodol os bydd hynny o fudd i'r academyddion ac i'r Cynulliad. Mae'r ddwy gymrodoriaeth gyntaf wedi cael eu cytuno gyda Phrifysgol Bangor ac mae'r cymrodyr yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ymchwil ar ddau faes polisi allweddol; dementia a datblygiad yr economi yng ngogledd Cymru.

SEFYDLODD Y GWASANAETH
YMCHWIL GYNLLUN
PEILOT AR GYFER **DWY**
GYMRODORIAETH
ACADEMAIDD GYDA
PHRIFYSGOL BANGOR

CYNIGIODD Y GWASANAETH
YMCHWIL **LEOLIAD**
GWAITH | **CHWE INTERN**
PHD DRWY GYNLLUN
INTERNIAETH POLISI
CYNGOR YMCHWIL Y DU

GWNAETH Y GWASANAETH YMCHWIL GWRDD AG **WYTH** O
DDEG SEFYDLIAD ADDYSG UWCH CYMRU I DRAFOD EIN
CYNLLUNIAU I GAEL RHAGOR O **YMGYSYLLTU ACADEMAIDD**
Â'N GWAITH

Astudiaeth achos: FySenedd



Rydym yn gweithredu mewn byd sy'n newid yn gyflym, byd symudol a digidol iawn sy'n rhoi pwysau cynyddol ar Aelodau'r Cynulliad ac yn gwneud ymgysylltiad democrataidd yn fwyfwy pwysig a heriol. Rydym yn anelu at fod y senedd gorau yn y byd, ac i wneud hynny mae angen inni wneud ein gwybodaeth yn fwy agored, ac ar gael yn ddigidol.

Ein gweledigaeth yw 'cysylltu ac ymgysylltu holl bobl Cymru gyda gwybodaeth seneddol y gellir ymddiried ynddi pryd bynnag, fodd bynnag, a lle bynnag y maent yn dewis gwneud hynny'.

Mae dod yn senedd agored, digidol yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud y llif o wybodaeth i mewn, o fewn, ac allan o'r Cynulliad mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gan gynnig dewis, hyblygrwydd a rhwyddineb defnydd i'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd. Rydym wedi cydnabod bod angen inni wneud nifer o welliannau i gyflawni hyn ac mae'r rhaglen FySenedd wedi cael ei sefydlu i gydgyssylltu prosiectau a gweithgareddau cysylltiedig.

Drwy gydol y Pumed Cynulliad, byddwn yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau ymarferol yn flynyddol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o anghenion yr



Aelodau ac anghenion pobl Cymru, a fydd yn rhoi profiad llawer haws, mwy perthnasol, mwy personol a chydâ mwy o foddhad i bob un o'n defnyddwyr .

Ymhlith yr enghreifftiau o ail-ddylunio gwasanaethau sy'n mynd rhagddynt yn dda mae'r canlynol:

- cyflwyno busnes: ei gwneud yn haws i'r Aelodau a'u staff gyflwyno busnes drwy borth personol ar-lein, ac yn ei gwneud yn haws i bawb weld, olrhain a chwilio busnes y Cynulliad;
- Cofnod y Trafodion - ei gwneud

yn haws chwilio drwy'r Cofnod a thrawsgrifiadau pwyllgorau a'u rhannu, mewn nifer o fformatau a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol; a

- drafftio a diwygio deddfwriaeth: gwella a disodli'r system bresennol.

Gyda strategaeth effeithiol o reoli gwybodaeth yn gefn inni, rydym yn bwriadu gosod y sylfeini digidol ar gyfer gwneud gwelliannau eraill, megis ailwampio'n gwefan. Dylai hyn arwain at allu i reoli a defnyddio'n data a'n gwybodaeth yn well, yn ogystal â phrosesau gwaith mwy effeithlon.

Galluogi ymateb sefydliadol cryf i newid cyfansoddiadol a chanlyniad refferendwm yr UE

Ar 26 Mehefin sefydlodd y Cynulliad Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol gyda chylch gwaith i archwilio'r goblygiadau i Gymru yn sgil y Deyrnas Unedig yn gadael yr UE ac i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn y broses. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb hefyd dros gydgyssylltu gwaith pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â'r broses o adael yr UE.

Penodwyd Ymgynghorydd newydd ar gyfer yr UE a Materion Cyfansoddiadol ym mis Ionawr 2017 i roi cyngor i Aelodau'r Cynulliad a staff ar faterion sy'n ymwneud â chanlyniad refferendwm yr UE. Roedd hon yn disodli swydd flaenorol ym Mrwsel. Mae hyfforddiant a diweddariadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a staff y Comisiwn ar ganlyniad a goblygiadau refferendwm yr UE wedi'u darparu ar y cyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaeth Cyfreithiol drwy Wasanaeth Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ymgysylltu â sefydliadau allweddol ym Mrwsel, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop a phwyllgorau cyfatebol ledled y DU. Cyhoeddodd ei adroddiad cyntaf ar y goblygiadau i Gymru yn sgil y DU yn gadael yr UE a chynhaliwyd cynhadledd genedlaethol ar flaenoriaethau Cymru ar gyfer trafodaethau Erthygl 50 ar 27 Mawrth 2017. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gael ei gefnogi wrth iddo hyrwyddo materion sydd o bwys i Gymru wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei rôl yn y broses.

Craffu ar Fil Cymru a pharodrwydd i arfer pwerau newydd

Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Cymru ym mis Mehefin 2016. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer model cadw pwerau o ddatganoli i'r Cynulliad. Arweiniodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y gwaith craffu ar y Bil ar gyfer y Cynulliad, a chymerodd y Llywydd y cam arloesol o gyhoeddi'r gwelliannau lle roedd yn teimlo eu bod yn ofynnol i sicrhau bod y Bil yn sefydlu fframwaith cyfansoddiadol cryf i Gymru. Wrth lunio ei gwelliannau, roedd y Llywydd yn ystyried y gwaith craffu cyn deddfu a wnaed gan bwyllgorau'r Cynulliad ar y Bil Cymru drafft yn gynharach yn y flwyddyn, yn ogystal â phrofiad y Cynulliad o weithio o fewn y setliad datganoli presennol.

Roedd gwelliannau arfaethedig y Llywydd yn adlewyrchu dwy egwyddor allweddol:

- y dylai fod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer unrhyw newidiadau i'w bwerau, sy'n golygu y dylai'r trefniadau cydsyniad deddfwriaethol statudol rhwng y Cynulliad a'r Senedd ddim bod yn gulach na chwmpas y confensiwn rhynglywodraethol sy'n bodoli eisoes, ac y dylai'r Cynulliad orfod cydsynio cyn bod pwerau amrywio treth incwm yn cael eu datganoli; ac
- y dylai'r Cynulliad feddu ar y pŵer a'r hyblygrwydd i bennu ei faterion mewnol ei hun.

Yn ogystal ag ymgysylltu adeiladol ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru drwy gydol hynt y Bil, ysgrifennodd y Llywydd at holl Aelodau Seneddol Cymru ac aelodau Tŷ'r Arglwyddi i egluro ei gwelliannau arfaethedig. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd y gwelliannau a chawsant eu trafod gan Aelodau Seneddol ac Arglwyddi.

Wedi i'r Cynulliad gydsynio i Fil Cymru, cafodd Deddf Cymru 2017 ei phasio gan y Senedd a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. Darparodd y Comisiwn gefnogaeth i drafodaethau'r

Cynulliad ar y Bil drafft, gan gynnwys rhoi sesiynau briffio rheolaidd i'r Aelodau. Gweithiodd y staff gydag arbenigwyr mewn trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu, gan sicrhau y byddai'r Cynulliad yn parhau i gael mynediad at adnoddau ac arbenigedd ychwanegol er mwyn helpu i baratoi ar gyfer newid cyfansoddiadol a'i roi ar waith.

Drwy ddatganoli pwerau i'r Cynulliad a symud tuag at fodel cadw pwerau, rhoddir sail gyfansoddiadol newydd i'r Cynulliad, gyda chyfrifoldebau newydd pwysig. Disgwylir i'r model cadw pwerau ddod i rym yn gynnar yn 2018, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y Cynulliad yn cael ei baratoi'n briodol, ac yn cael ei gefnogi gan staff y Comisiwn, i gyflawni ei rôl craffu a goruchwyllo hanfodol.

Un o flaenoriaethau'r Llywydd yn ystod hynt y Bil oedd y dylai'r Cynulliad gael yr hyblygrwydd a'r ymreolaeth i benderfynu ar ei faterion mewnol ei hun, ac y dylai gael y pwerau deddfwriaethol i benderfynu ar y ffordd orau o gynrychioli pobl Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

O ganlyniad i hyn, mae Deddf Cymru yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros amryw o'i drefniadau etholiadol, mewnol, sefydliadol a gweithredol. Yn ystod hydref 2016 cyhoeddwyd y byddem yn gwneud defnydd o'r pwerau hyn i ddatblygu gwaith er mwyn helpu i sicrhau bod y Cynulliad yn ddeddfwrfa gryfach, mwy hygrych, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cyhoeddi ymgynghoriad, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017, ynghylch a ddylai'r Cynulliad newid ei enw (yn dilyn cytundeb unfrydol gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2016 y dylai enw'r sefydliad adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol); a sefydlu Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ym mis Chwefror 2017 er mwyn ein helpu i edrych ar y materion sy'n ymwneud â chynyddu maint y Cynulliad.

Mae'r Panel Arbenigol, a gadeirir gan yr Athro Laura McAllister CBE, yn cynnwys arbenigwyr ym meysydd systemau etholiadol, gwaith a chapasiti seneddau, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol, a materion ehangach o ran llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu. Ei rôl yw adolygu'r dystiolaeth, a gwneud argymhellion cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ddiuedd ac yn wleidyddol niwtral i ni, y Comisiwn, ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol briodol, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Y bwriad yw i'r Panel gyflwyno adroddiad yn ystod hydref 2017. Mae'r Llywydd hefyd wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad. Er y bydd y Panel Arbenigol yn gweithredu'n annibynnol, ni all weithio'n llwyr ar wahân i wirioneddau'r sefyllfa wleidyddol. Mae'r Grŵp Cyfeirio yn gweithredu fel seinfwrdd i ganfyddiadau'r Panel wrth iddynt godi, a bydd yn helpu'r Panel i sicrhau bod ei waith yn arwain at argymhellion ymarferol.

Darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol

Gosod yr uchelgeisiau a'r blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd y Comisiwn

Mae ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft newydd yn adeiladu ar ddiwylliant dwyieithog y Cynulliad ers ei sefydlu ym 1999. Mae cynlluniau olynol wedi nodi'r safonau yr ydym yn atebol iddynt. Gan adeiladu ar y llwyfan a ddatblygwyd gennym, ein llwyddiannau o dan y Cynllun presennol, yn ogystal â datblygiad pellach ein diwylliant o weithio'n ddwyieithog, credwn fod mwy i'w wneud o hyd er mwyn ein galluogi i gyflawni ein huchelgais o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2021. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi mireinio ein datganiad uchelgais i fynegi ein dyhead i wella'n gwasanaethau dwyieithog yn ogystal ag annog a hwyluso gweithio'n ddwyieithog mewn modd rhagweithiol, a gwneud hynny'n rhan naturiol o'n gwaith pob dydd. I gefnogi'r broses o gyflawni'r uchelgais hon, rydym wedi datblygu pum thema a fyddai'n ein galluogi i ddisgrifio ein hunain yn hyderus fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2021.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ysgrifenedig ar ein cynigion, ac aeth Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros Ieithoedd Swyddogol i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad i graffu ar y Cynllun drafft. Bydd y fersiwn ddrafft yn cael ei hystyried gan y Cynulliad er mwyn ei chymeradwyo'n ffurfiol cyn toriad yr haf.

Gwella'r cymorth i ddysgwyr neu'r rhai sydd am wella eu Cymraeg

Tuag diwedd 2015, cynhaliwyd adolygiad manwl o'n darpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Diben yr adolygiad oedd atgyfnerthu'r dull darniog blaenorol o ddysgu'r iaith a sicrhau bod y ddarpariaeth mor hyblyg a theilwriedig â phosibl. Yn sgil yr adolygiad a'r cynllun peilot a arweiniodd at benodi Tiwtor Cymraeg mewnol dros dro i staff y Comisiwn, sefydlwyd y tîm Sgiliau Iaith. Mae'r tîm bellach wedi'i benodi ac mae hyn wedi caniatáu inni ymateb yn greadigol i anghenion dysgu iaith Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Mae'r tîm wedi cynllunio rhaglen arloesol o ddysgu er mwyn galluogi dysgwyr o bob lefel i gymryd rhan a gwneud cynnydd. Mae'r tîm hefyd wedi datblygu ymhellach y brand 'Dysgwr', sydd bellach yn logo adnabyddus ar draws ystâd y Cynulliad. Mae'r tîm bellach yn cefnogi dros 100 o ddysgwyr yn rheolaidd yn ogystal â darparu hyfforddiant untro yn y gwaith i eraill.

Yn ogystal â darparu cymorth dysgu iaith, mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn gweithio ar raglen gynhwysfawr sydd wedi'i hanelu at staff sydd eisoes â rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ond sydd o bosibl â diffyg hyder. Mae'r hyfforddiant gloywi iaith, gan gynnwys sesiynau gloywi ffurfiol ar ramadeg a mentora mwy anffurfiol ar gyfer unigolion neu grwpiau bach, i gyd yn elfennau pwysig o waith y Tîm Sgiliau Iaith. Byddant yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu ymhellach ein hethos dwyieithog lle mae pob aelod o staff yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau ac yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi am y sgiliau sydd ganddynt.

Astudiaeth achos: Cyhoeddi Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog yn gynharach



Yn dilyn gweithredu argymhellion yr adolygiad o Gofnod y Trafodion a gymeradwywyd gan y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2015, cafodd gwelliannau i gyflymu'r broses o gyhoeddi a chyfieithu Cofnod y Trafodion eu rhoi ar waith o ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen.

Mae fersiwn ddrafft o gofnod o sesiynau'r Cyfarfod Llawn bellach yn cael ei chyhoeddi ar sail dreigl gan ddechrau ymddangos tua awr ar ôl dechrau'r Cyfarfod Llawn ac mae'n cynnwys lincs i ganlyniadau

llawn y pleidleisiau, bywgraffiadau'r Aelodau a senedd.tv. Cyhoeddir y fersiwn derfynol gwbl ddwyieithog, gyda phob cyfraniad yn y ddwy iaith, o fewn tri diwrnod gwaith. Mae hyn yn welliant sylweddol ar amser cyflawni blaenorol o bum diwrnod gwaith.

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

Ymgysylltu'n strategol i gael effaith ar fusnes y Cynulliad drwy bobl sy'n ymweld â'n hystâd, ledled Cymru ac ar-lein

Rydym wedi cytuno ar strategaeth i gyflawni nod strategol Comisiwn y Cynulliad o ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer y Pumed Cynulliad, 'i ymgysylltu â holl bobl Cymru ac i hyrwyddo'r Cynulliad'. Byddwn yn gwneud hyn drwy adeiladu ar ein llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gyda gweithgareddau a mentrau i roi gwybodaeth i bobl, i'w cynnwys neu i'w grymuso i weithio gyda ni er budd i'r ddwy ochr.

Ymgysylltu lleol ledled Cymru – y prif bwyntiau

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar weithio rhyng-seneddol, defnyddiodd staff y Comisiwn eu partneriaethau a'u cysylltiadau cymunedol gyda grwpiau cynrychiadol i ddwyn ynghyd banel o ddinasyddion. Roedd yn bwysig i'r Pwyllgor fod y panel yn cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd, o wahanol rannau o Gymru. Mae'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdai, megis yr angen i ddatblygu cysylltiadau trawsbleidiol sy'n parchu ei gilydd, cryfhau cyfathrebu a hygyrchedd â'r etholaeth a defnyddio arfer gorau er mwyn llywodraethu'n well, wedi bod yn sail i'r ymchwiliad wrth iddo gael rhagor o dystiolaeth.

Bydd y Pwyllgor yn gwahodd y Panel o Ddinasyddion i gwrdd am yr eildro tua diwedd yr ymchwiliad i brofi argymhellion, rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion arfer gorau.

Cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ymchwiliad i'r Strategaeth Iaith Gymraeg newydd, i ganolbwyntio ar faterion penodol y rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i ddefnyddio neu ddysgu Gymraeg, a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a chymunedau.

Bu pobl ifanc o Abertawe, y Barri, yr Wyddgrug, Sir Fôn, Llanelli, Ceredigion, Caerfyrddin a Chaerffili yn cymryd rhan mewn gweithdai gyda staff y Comisiwn. Roedd y trafodaethau hyn yn cynnwys pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Gymraeg a Saesneg, a chafodd eu barn ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor.

Ymwelodd aelodau'r Pwyllgor ag ysgolion hefyd i ryngweithio'n uniongyrchol â disgyblion blwyddyn 10 ac 11 o Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Ysgol yr Esgob Gore, ac Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Richard Gwyn, a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithdai yn flaenorol. Mae barn a syniadau'r bobl ifanc a gymerodd ran wedi ffurfio rhan o'r dystiolaeth, a ystyriwyd gan aelodau'r pwyllgor. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad yn ddiweddarach eleni.

Astudiaeth achos: Canolbwyntio ar gyrraedd y rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf



Roedd staff yn cefnogi ymgynghoriad yr haf y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei flaenraglen waith.

Roedd y cymorth sydd ar gael i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru yn flaenoriaeth bwysig i'r rhanddeiliaid. Fel rhan o'r ymchwiliad, cafodd yr Aelodau eu cefnogi mewn grwpiau ymweld yn ardaloedd Casnewydd, Abertawe a Chaerdydd a gwnaethant siarad yn uniongyrchol gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r rhai sy'n eu cefnogi, i ddeall y prif faterion

sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd, tai, addysg a chyflogaeth.

Trafododd y cyfranogwyr integreiddio yn y gymuned, a gwahaniaethu a cham-drin yn erbyn ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei bwydo i mewn i'r gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ac mae adroddiad y Pwyllgor wedi tynnu sylw at y pryderon difrifol a fynegwyd ynghylch ansawdd y tai sydd ar gael i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Astudiaeth achos: Gwella profiad ymwelwyr â'r Senedd a'n hystâd i alluogi ymgysylltiad â busnes y Cynulliad



Er ein bod wedi cynnal nifer o weithgareddau llwyddiannus yn y Senedd sydd wedi galluogi ymwelwyr i ymgysylltu â busnes y Cynulliad, roedd adolygiad diweddar o'n prosesau a'n strwythurau yn datgelu nad oes gennym ymagwedd strategol tuag at y defnydd o'n hystâd yn ei chyfanrwydd.

Cynigiodd yr adolygiad ein bod yn rhoi systemau, strwythurau a phrosesau diwygiedig ar waith i alluogi'r Cynulliad i fod yn senedd arloesol sy'n rhoi llais i bobl Cymru wrth wraidd yr hyn a wnawn drwy ymgysylltiad ystyrlon ar ffurf gweithgareddau seneddol o'r radd flaenaf ar ein hystâd.

Er mwyn gwella canlyniadau yn unol â blaenoriaethau'r Comisiwn, mae'r

gwaith o reoli gweithgareddau a gynhelir ar yr ystâd yn newid i ddull mwy rhagweithiol, strategol ac ystyriol, gan alluogi'r ystâd i fod yn arf allweddol wrth hyrwyddo'r Cynulliad, yn unol â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

Bydd y dull diwygiedig hwn o reoli gweithgarwch hefyd yn ein galluogi i:

- lywio a chynnwys y cyhoedd yng ngwaith y Cynulliad;
- grymuso'r cyhoedd i ddylanwadu ar agenda'r Cynulliad, gan eu hysbrydoli i gyd-berchnogi ei ddiben a'i gyflawniadau;
- darparu llwyfannau i gysylltu â chymunedau, etholaethau a



◀ **Cynnydd o 8 y cant yn nifer yr ymwelwyr â'r Senedd eleni i 83,680.**

Cynnydd o 20 y cant yn nifer y bobl sy'n mynd ar daith o amgylch y Senedd i 26,305 – gan ganolbwyntio ar gymryd rhan yn ymgynghoriadau'r Cynulliad.

Caiff mwy o deithiau eu darparu ar gyfer anghenion grwpiau penodol:

- teithiau ar gyfer ymwelwyr ag awtistiaeth, teithiau gydag iaith arwyddion ar gyfer pobl fyddar a byddar/dall fel rhan o'r Diwrnod Mynediad i'r Anabl
- teithiau 90 munud wedi'u teilwra i hyrwyddo Diwrnod Pensaerniaeth y Byd sy'n tynnu sylw at bensaerniaeth unigryw'r Senedd
- gweithdai a theithiau i annog pobl i gofrestru i bleidleisio a anelwyd yn arbennig at grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd

rhanbarthau; a

- chaniatáu mynediad cyfartal.

Drwy wneud gwell defnydd o'n hystâd i gyfleu ein negeseuon a rhaglen o arddangosfeydd rhyngweithiol a gynlluniwyd ac arddangosfeydd parhaol, bydd pob ymwelydd â'n hystâd yn cael y cyfle i fynd â gwybodaeth gartref am ein gwaith yn y Cynulliad, ei Aelodau a democratiaeth yng Nghymru.

Cafodd y gwasanaeth newydd, Gwasanaethau Ymwelwyr a Lleoliadau Seneddol, ei lansio yn ddiweddar ac erbyn hyn mae'n darparu un pwynt ar gyfer trefnu'r holl leoliadau ar yr ystâd. Ein nod yw cael gwared ar y dyblygu gweithgarwch, creu prosesau gweinyddol effeithlon, darparu eglurder ynghylch

rolau a chyfrifoldebau, datblygu dull strategol ac ystyrlon o ran y defnydd o'n hystâd, cysoni polisïau a chanllawiau ynglŷn â'r defnydd o'r ystâd a gwella cyfathrebu rhwng yr holl gydrannau sy'n ymwneud â gweithgarwch yr ystâd. Mae'r dulliau effeithlonrwydd hyn o ran y system a'r strwythur hefyd wedi arwain at arbedion ariannol cychwynnol o dros £90,000. Parheir i chwilio am ffyrdd eraill o fod yn effeithlon wrth i'r meysydd gwasanaeth sefydlogi.

Ymrwymo'n gryf i bobl ifanc Cymru

Darparu cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at fusnes y Cynulliad

Defnyddiwyd adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad mewn digwyddiadau gwahanol dros yr haf fel ffordd o hyrwyddo'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd gyda dros 1,500 o bobl ifanc. Roedd y prif themâu yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc, y Gymraeg a gwasanaethau ieuencid. Roedd y gweithgareddau yn ein galluogi i annog pobl ifanc i gymryd rhan ym musnes y Cynulliad.

Mae 55 o grwpiau wedi cymryd rhan mewn gweithdai i drafod eu barn ar fusnes y pwyllgorau ar hyn o bryd:

- Cyfrannodd pobl ifanc ag anghenion arbennig dystiolaeth ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg drwy 23 o weithdai.
- Cafodd ymchwiliad i wasanaethau ieuencid y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 1,511 o ymatebion gan bobl ifanc ar gyfer eu hymchwiliad ciplun i ieuencid ym mis Medi.
- Yn sgil ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i'r iaith Gymraeg cafodd pobl ifanc gymryd rhan mewn gweithdai i ddysgu am y Cynulliad ac i drafod eu barn ar y Gymraeg gyda phob grŵp yn creu maniffesto i amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer yr iaith.
- Mae ein swyddogion Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc hefyd wedi cefnogi'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o ymgyrch Senedd@Casnewydd. Yn ystod y gweithgareddau wythnos o hyd, darparwyd 19 o sesiynau i ysgolion a chlybiau ieuencid ar draws y ddinas.
- Mae dros 400 o bobl ifanc hefyd wedi cyfrannu eu barn i arolwg 'Newid Enw' y Comisiwn yn nechrau 2017.
- Mae gweithdai addysgol wedi ysbrydoli Whizz-Kidz ac Ysgol Caer Drewyn i gyflwyno deisebau i'r Cynulliad yn ystod y flwyddyn.

Ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru

Mae'r tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi hysbysu, cynnwys a grymuso plant a phobl ifanc i ymgysylltu â busnes y Cynulliad yn Siambr Hywel, y ganolfan addysg fewnol ac mewn ysgolion, colegau a lleoliadau y tu allan i'r ysgol ledled Cymru. Mae'r tîm wedi cyflwyno 653 o sesiynau a digwyddiadau, gan gysylltu â mwy na 27,000 o bobl ifanc.

Ysgolion, colegau a grwpiau ieuencid yr ydym wedi gweithio gyda nhw eleni:



Astudiaeth achos: Sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru



Ar 19 Hydref 2016, ar ôl cael cefnogaeth unfrydol Aelodau'r Cynulliad, cyhoeddodd y Llywydd ei hymrwymiad i'r Comisiwn sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys yr Ymgyrch ar gyfer Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru a gyhoeddodd ganfyddiadau ei ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2017 ar Gynulliad Plant a Phobl Ifanc i Gymru.

Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp llywio allanol sy'n cynnwys pobl ifanc a chynrychiolwyr o sefydliadau cenedlaethol yn y sector ieuenctid yng Nghymru. Mae'r grŵp llywio wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu model Senedd Ieuenctid yr ymgynghorir arno'n genedlaethol. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn sail ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru.

Ehangu ein cyrhaeddiad

Er mwyn gwella cyrhaeddiad ein gwaith, rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau y tu allan i ysgolion sydd wedi ein galluogi i gael barn 151 o grwpiau ieuenctid ar weithgarwch y Cynulliad. Mae rhai o'r grwpiau hyn wedi cymryd rhan am y tro cyntaf erioed ac yn cael eu cynnwys yn ein ffeithlun cysylltiedig.

Rhoi cyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud

Yn ychwanegol at yr amrywiaeth o enghreifftiau a roddir yn yr adran hon o'r adroddiad blynyddol, rydym wedi datblygu cynllun i ddatblygu potensial pobl eraill i ymgysylltu â phobl ifanc am waith y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Cynllun Llysgenhadon Dy Gynulliad Di yn sesiwn hyfforddi bedair awr i addysgu pobl ifanc am waith y Cynulliad. Ei ddiben yw eu grymuso a'u galluogi i gyflwyno gweithdai ar y Cynulliad i bobl ifanc eraill yn eu cymunedau. Yn dilyn cynllun peilot yn 2015, cafodd y cynllun ei gyflwyno yn 2016. Rydym bellach wedi hyfforddi pobl ifanc o sefydliadau fel Girlguiding Cymru, Fforwm Ieuenctid Caerffili a Llais Ifanc gyda 44 o athrawon a gweithwyr proffesiynol ym maes gwaith ieuenctid sydd bellach wedi'u hyfforddi i gyflwyno sesiynau. Rydym hefyd wedi cyflwyno pum sesiwn gydag athrawon dan hyfforddiant a gweithwyr ieuenctid dan hyfforddiant, gan gysylltu â 164 o bobl ifanc.

Cynllun Llysgenhadon Cynghorau Ysgolion

Rydym wedi lansio cynllun newydd ar gyfer Llysgenhadon Cynghorau Ysgolion er mwyn i gynghorwyr ysgolion ddysgu mwy am fod yn ddinasyddion gweithredol gyda'r Llysgenhadon hyfforddedig cyntaf yn cael eu tystysgrifau ym mis Mawrth 2017. Er mwyn cael statws Llysgennad ardystiedig, rhaid i gynghorau ysgolion gymryd rhan mewn gweithdy allgymorth, cyfrannu at flog Dy Gynulliad Di, mynegi eu barn yn un o ymchwiliadau'r Cynulliad a chytuno i gynorthwyo pryd bynnag y bydd angen barn pobl ifanc yn y dyfodol.

Digwyddiadau arbennig

Mae dros 5,500 o bobl ifanc wedi mynychu digwyddiadau yn Siambr Hywel a'r Senedd:

- Roedd bron i 200 o bobl ifanc, o 20 o grwpiau ieuenctid ac ysgolion, yn bresennol yn Agoriad Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2016.
- Roedd 714 o ddisgyblion yn bresennol yng ngweithdai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru y Cynulliad mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod tymor yr haf 2016. Rydym hefyd wedi dod yn rhan o Grŵp Ymgynghorol CBC Prifysgol Caerdydd.
- Ar 11 Mehefin 2016 croesawodd Fws y Cynulliad 1007 o bobl ifanc ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ar gyfer yr All Wales Cub Fun Day!
- Mae grŵp o 10 o bobl ifanc, â chymorth yr elusen Digartref ar Ynys Môn, wedi bod yn gweithio gyda staff y Comisiwn fel rhan o'i brosiect Lleisiau Lleol. Mae'r grŵp, sydd rhwng 16 a 25 oed, wedi cymryd rhan mewn gweithdy etholiad 2016 Cymru; cynnal etholiad ffug; mynychu'r orsaf bleidleisio ar Ddiwrnod yr Etholiad a chymryd rhan mewn dau weithdy llawn yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd.
- Cymerodd dros 200 o fyfyrwr gwleidyddiaeth ran mewn cynhadledd 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' yng Nghaerdydd. Darparodd hyn lwyfan i bobl ifanc weithio gyda staff y pwyllgorau a'r Aelodau.
- Laura Jane Elliot oedd cynrychiolydd pobl ifanc y Cynulliad yn Uwchgynhadledd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn Vancouver.
- Matt Walker a Samantha Ellis oedd cynrychiolwyr pobl ifanc y Cynulliad yn nathliadau Diwrnod y Gymanwlad y Frenhines yn San Steffan ym mis Mawrth.
- Mae rhaglen o ymgysylltu â phobl ifanc wedi cael ei chynnal yn Sir Gaerfyrddin gyda mamau ifanc o 'Plant' fel rhan o'r



ymgyrch i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol.

- Ym mis Hydref 2016 aeth pobl ifanc o Bafiliwn Ieuenctid Butetown a Grangetown i ymweld â'r Cynulliad a threulio amser yn gofyn cwestiynau i'r Llywydd fel rhan o fis Hanes Pobl Dduon.
- Ym mis Tachwedd croesawyd saith ysgol uwchradd o bob rhan o Gymru i'r Senedd a Siambr Hywel. Cymerodd y bobl ifanc ran mewn dadl ar adael yr Undeb Ewropeaidd a phobl ifanc a gwleidyddiaeth fel rhan o raglen Hacio S4C.
- Cynhaliwyd Cymdeithas Seneddol Prydain ac Iwerddon yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2016. Rhoddodd y Dirprwy Lywydd gyflwyniad i dros 100 o seneddwr i siarad am waith y Cynulliad wrth ymgysylltu â phobl ifanc.
- Rhoddodd myfyrwyr gwleidyddiaeth eu barn ar adael yr Undeb Ewropeaidd

mewn digwyddiad a drefnwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ym mis Mawrth 2017.

- Bu Swyddogion Addysg Allgymorth yn hwyluso ac yn arwain gweithdy i ddisgyblion Blwyddyn 10 o ddeg ysgol yn Abertawe mewn perthynas â'r 'Diwrnod Democratiaeth ar Waith' a drefnwyd gan Aelodau Cynulliad Abertawe a Gŵyr.

▼ Llundain:
(Chwith) Disgyblion o Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert yn agoriad swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(Canolfan) Myfyrwyr Gwleidyddiaeth mewn cyfarfod llawn yng nghynhadledd 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth'

(Dde) Pobl ifanc o Bafiliwn Ieuenctid Tre-biwt a Grangetown



Sicrhau ei bod yn hawdd canfod, defnyddio a rhannu gwybodaeth ddibynadwy mewn byd digidol

Wrth i'r byd digidol esblygu, rydym wedi addasu ein dull ar-lein o ystyried y ffyrdd newydd y mae pobl yn defnyddio eu newyddion a'u gwybodaeth. Mae'r newid hwn yn ymddygiad defnyddwyr, a'r disgwyliadau yn sgil hynny, wedi annog datblygiad o estyniad digidol i'n brand corfforaethol ac ymagwedd newydd tuag at y ffordd yr ydym yn datblygu ein negeseuon a'n hymgyrchoedd ar-lein.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu ein gwasanaethau a'n presenoldeb digidol fel bod ein gwybodaeth yn agored, yn hygyrch, yn ddeniadol ac yn hawdd ei rhannu. Eleni, mae ein gwefan wedi gweld nifer o welliannau sy'n ceisio gwella'r profiad o ganfod, deall a defnyddio ein cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r ffordd y caiff data meta eu trin, sy'n golygu ei bod yn haws chwilio a rhannu ein cynnwys, a gwelliannau i iaith a chynlluniau'r tudalennau mewn nifer o feysydd allweddol i wella profiad y defnyddiwr.

Mae gwaith i wella pa mor hawdd y gall defnyddwyr ganfod, defnyddio a rhannu gwybodaeth am fusnes y Cynulliad drwy ein gwefan wedi parhau ac mae'r rhaglen FySenedd yn ein helpu i gynllunio ar gyfer camau nesaf y gwaith o'i datblygu.

- Mae tudalen lanio pob pwyllgor bellach yn cynnwys fideo a ffrwd Twitter ei hun.
- Caiff diweddariadau rheolaidd am waith y pwyllgorau eu cynhyrchu drwy'r **Cylchlythyr ar Bwyllgorau a Deddfwriaeth**, y gall defnyddwyr danysgrifio iddo.
- Mae **canllaw cam wrth gam i ymchwiliadau pwyllgorau** wedi'i gynhyrchu, ynghyd â gwybodaeth fanylach am **Gymryd rhan gyda phwyllgorau**. Mae **canllaw cam wrth gam tebyg i broses deddfwriaethol y Cynulliad** hefyd ar gael.
- Bydd fersiwn Crown XML (fformat data agored, testun plaen) o bob Bil a Deddf a ystyrir gan y Cynulliad ers 2011 yn cael ei chynhyrchu yn y dyfodol agos, gyda'r bwriad y bydd pob deddfwriaeth yn y dyfodol a ystyrir gan y Cynulliad ar gael mewn fformat Crown XML, yn ogystal â fformat PDF.

Darparu gwybodaeth ddibynadwy sy'n addas ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd

Gan fod ein sefydliad yn ei gyfanrwydd yn edrych am ffyrdd o fod yn fwy agored ac arloesol drwy'r amser, mae'n briodol y dylai ein dull digidol rannu'r un uchelgais. Rhyddhawyd Facebook Live i'r cyhoedd ar 6 Ebrill 2016. Rydym wedi mabwysiadu'r llwyfan gan ei fod yn cynnig cyfle gwych i ymgysylltu mewn amser real ac mae'n gosod ein cynnwys ar sianel y mae pobl eisoes yn ei defnyddio, yn hytrach na disgwyl iddynt ddod i sianel wahanol. Cyfweiliad gyda Bethan Jenkins, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, oedd ein darllediad Facebook Live cyntaf a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016. O fewn 15 awr o ddarlledu, roedd y fideos Cymraeg a Saesneg ar y cyd wedi cael eu gwyllo 1,744 o weithiau a arweiniodd at lawer mwy o bobl yn 'hoffi' tudalen y Cynulliad yn ystod y ffrwd byw ei hun. O ganlyniad i hyn, ers hynny rydym wedi defnyddio Facebook Live fel rhan o ddiwyddiadau ac i lansio nifer o ymgynghoriadau pwyllgor.

Ym mis Hydref 2016, cyflwynwyd Datganiadau 90 Eiliad mewn Cyfarfodydd Llawn ar ddydd Mercher. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r eitemau bach amserol hyn gan Aelodau'r Cynulliad rydym wedi creu mecanwaith lle galem greu fideos byr, gyda chapsiynau a brand y gellid wedyn eu dosbarthu i'r cyfryngau ac i'r Aelod a roddodd y datganiad. Yna mae'r fideos yn cael eu postio i YouTube, Twitter a Facebook o fewn tair awr i'r datganiad gael ei wneud. Mae hyn yn golygu bod y datganiadau amserol hyn yn cael eu cylchredeg i'r cyhoedd ehangach drwy sianeli ar-lein mewn ffordd eithriadol o amserol. Ym mis Rhagfyr 2016, rhoddodd y Llywydd ddatganiad 90 eiliad ar dref Aberteifi (Cardigan) yn newid ei henw i Siwmpwr (Jumper) i hyrwyddo Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant. Gwylwyd y fideo mwy na 29,900 o weithiau, a'r fideo hwn sydd wedi cael ei wyllo amlaf hyd yma.

Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn barhaus a mesur y gwelliant ac adrodd arno

Buddsoddi'n strategol er mwyn helpu i wella gwasanaethau, gan gynnwys cyfleoedd technoleg newydd ar gyfer gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Rydym wedi gweithio i sefydlu 'llinyn' cynllunio sy'n rhedeg o'r strategaeth a'r nodau, drwy ein blaenoriaethau corfforaethol ac i'n gwaith o gynllunio gwasanaethau a chapasiti. Rydym hefyd wedi datblygu fframwaith sicrwydd, yr ydym yn ei ddefnyddio i sicrhau bod gennym dystiolaeth o gynllunio ac o wneud penderfyniadau effeithiol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod yr aliniad â'n strategaeth a'n blaenoriaethau yn gyson, a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau sy'n gyfrifol am benderfyniadau ar fuddsoddi ac adnoddau staffio ac am oruchwylio cyllideb y Comisiwn.

Rydym wedi rheoli ein hadnoddau gan ddefnyddio'r prosesau hyn er mwyn sicrhau bod y defnydd o adnoddau yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol y Comisiwn newydd, ac yn cyflawni gwelliannau o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn dilyn y cynllun ymadael gwirfoddol mwyaf diweddar.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ddatblygu cynlluniau buddsoddi tymor canolig i'r hirdymor o ran ystadau a chyfleusterau'r Cynulliad ac ar gyfer TGCh. Mae amserlen o ddeng mlynedd ar gyfer y cyntaf, ac mae'n ein galluogi i asesu'r angen am fuddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw'r ystâd mewn cyd-destun strategol. Mae amserlen o dair blynedd i'r cynllun TGCh, sy'n adlewyrchu cyflymder y newid o ran technoleg. Mae'r gronfa fuddsoddi TGCh, y mae'r cynllun hwn yn deillio ohono, wedi'i sefydlu o arbedion yn sgil darparu gwasanaethau TGCh y Cynulliad yn fewnol. Mae'r ddau gynllun yn seiliedig ar 'ddim-cyllideb'. Caiff yr achosion busnes ar gyfer buddsoddiad eu penderfynu gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau ac, mewn achosion lle byddai'r buddsoddiad yn drech nag awdurdod dirprwyedig y Swyddog Cyfrifyddu, gan Gomisiwn y Cynulliad.

Mae'r rhaglen FySenedd yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau busnes y Cynulliad. Mae model gweithredu targed wedi'i sefydlu ar gyfer y rhaglen bum mlynedd ac mae bwrdd y rhaglen yn adolygu ei flaenoriaethau yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn datblygu yn unol â blaenoriaethau strategol y sefydliad ac yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae'n sicrhau bod prosiectau a mentrau newid a gynhelir gan Gyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad yn fwy cydgysylltiedig ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Gwella'r wybodaeth reoli sydd ar gael i ddangos yn glir lle rydym yn gwneud gwelliannau

Ar hyn o bryd rydym yn darparu tystiolaeth gynhwysfawr ynghylch cynlluniau, perfformiad a chydymffurfriad y Comisiwn, yn ogystal â dangos y gwasanaethau rhagorol yr ydym yn eu darparu, ynghyd â'n cyflawniadau. Rydym yn gwneud hyn drwy'r dulliau a ganlyn:

- Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau ar berfformiad
- Adroddiad Uchafbwyntiau
- Adroddiadau ynghylch prosiectau
- Adroddiad ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol
- Cynllunio gwasanaethau a chapasiti
- Canlyniadau Arolwg Boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth
- Arolwg Staff
- Adroddiad Archwilio Blynyddol
- Adroddiad Misol ar Reoli Cyllid

Ar lefel gorfforaethol, mae gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau bellach gyfrifoldeb strategol dros sicrhau bod Cronfa Fuddsoddi'r Comisiwn yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth gyflwyno adroddiad ar reoli, monitro a chyflwyno pob gweithgarwch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, boed hwn yn waith newydd neu'n waith sy'n gysylltiedig â chynlluniau newid sy'n bodoli eisoes.

Adnewyddu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn sgil blaenoriaethau'r Comisiwn

Yn ystod 2016-17, rydym wedi adnewyddu fformat ein Hadroddiad ar Berfformiad Corfforaethol a diweddarau ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae fformat newydd yr adroddiad yn cynnwys y prif ddangosyddion, ac o dan y rheini mae dangosyddion penodol sydd â thargedau. Drwy wneud hyn mae modd i'r adroddiad newid gydag amser, ac ar yr un pryd mae'n parhau i sicrhau cysondeb a dangos set o ddata cymharol o'r prif ddangosyddion.

Er enghraifft, roedd adroddiad cyntaf y Pumed Cynulliad, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Medi 2016, yn cynnwys dangosydd mewn perthynas â datblygiad proffesiynol yr Aelodau Cynulliad newydd ar ddechrau'r Pumed Cynulliad. Mae'r dull hyblyg newydd o gyflwyno'r Dangosyddion yn caniatáu i'r dangosydd hwn gael ei newid neu ei ddileu o adroddiadau'r dyfodol, heb effeithio ar y gallu i ddarparu set o ddata cymharol.

Hefyd, ychwanegwyd nifer o ddangosyddion sy'n mesur lefel boddhad ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn yn rhoi gwell syniad o safon y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'n cwsmeriaid a lle y gellir gwneud gwelliannau posibl.

Er mai dim ond bob dwy flynedd y mae'r adroddiad perfformiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus, mae'r data amser real ar gael, serch hynny, at ddibenion adrodd a monitro mewnol. Gall y wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn fformat dangosfwrdd ar unrhyw adeg ac mae'n rhan werthfawr o'r wybodaeth reoli.

Astudiaeth achos: Adolygiad Diogelwch



Cynhaliwyd adolygiad manwl o ddiogelwch, sydd wedi ystyried y risgiau sy'n dod i'r amlwg a thwf yn y dyfodol. Bydd strwythur rheoli newydd yn darparu arweinyddiaeth glir, a bydd staffio gwell yn darparu mwy o gyfleoedd i hyfforddi swyddogion diogelwch i gyflawni safonau proffesiynol gwell.

Ers mis Awst 2016, mae uwch-aelodau o staff diogelwch wedi bod yn ymweld â swyddfeydd etholaethol yr Aelodau i asesu eu darpariaethau diogelwch a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Cytunodd y Bwrdd Taliadau ar gyllid ar gyfer y gwelliannau diogelwch y teimla'r aseswyr bod yn 'rhaid' neu y 'dylid' eu gosod i'w helpu i ddiogelu eu swyddfeydd etholaethol. Fel rhan o'r broses

hon, ystyriwyd hefyd gartref neu lety yr Aelodau lle bo hynny'n briodol. Mae cefnogaeth bellach yn cael ei darparu i'r Aelodau a'u staff wrth gyflwyno'r gwelliannau diogelwch ffisegol a argymhellwyd.

Ynghyd â'r argymhellion diogelwch ffisegol, roedd yr ymweliadau â'r swyddfeydd etholaethol hefyd yn canolbwyntio ar gyngor diogelwch ymarferol megis cynlluniau swyddfa, gweithdrefnau gweithio unigol, rhoi gwybod am ddigwyddiadau a chanllawiau ar sut i redeg 'cymhorthfa ddiogel'. Mae proses newydd ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau wedi cael ei rhoi ar waith ac mae pecyn hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu ar gyfer yr Aelodau a'u staff mewn perthynas â rheoli gwrthdaro.

Meithrin gallu ein pobl i fod yn hyblyg i gwrdd â heriau'r presennol a'r dyfodol

Mae gallu staff yn hanfodol er mwyn sicrhau y darperir yr amcanion byrdymor a'r strategaeth hirdymor. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y Pumed Cynulliad a bellach ceir ffocws cynyddol ar allu staff i gydnabod uchelgeisiau'r Pumed Cynulliad a'r prosiectau a'r rhaglenni mawr sydd i'w cyflwyno yn ystod ei dymor.

Mae ein pwyslais ar reoli pobl yn effeithiol yn cael ei ddangos drwy ein hymrwymiad i raglen hyfforddi rheolwyr y Comisiwn a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag aelodau'r Bwrdd Rheoli a helpodd i gynllunio'r rhaglen graidd; monitro barn drwy'r arolwg staff a oedd yn nodi bod rheolwyr llinell yn effeithiol fel modelau rôl ac yn dda am arddangos y gwerthoedd sefydliadol; ac ymagwedd agored i arweinyddiaeth a'r parodwydd cyson i gael trafodaeth ddwyffordd gyda chyflogeion ar draws y sefydliad. Mae hyn wedi bod yn allweddol o ran meithrin a sicrhau cyfnewid safbwyntiau a gwybodaeth yn rheolaidd rhwng rheolwyr llinell a staff.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar reoli perfformiad a datblygiad (PMDR) i feithrin ystywythder, gwytnwch a gallu staff i ymateb i anghenion cynyddol a newidiol y busnes. Enghraifft o hyn yw'r cydweithio gwell rhwng y tîm Adnoddau Dynol a'r meysydd gwasanaeth i wella profiad staff o'r arolwg PMDR. Ailwampwyd y broses PMDR i sicrhau bod yr amcanion gwaith a'r modd y mae'r staff yn eu cyflawni yr un mor bwysig â'i gilydd. Cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r arolygon PMDR sydd wedi'u cwblhau ac mae hynny'n dangos mwy o ymgysylltu â'r broses PMDR a bod ansawdd yr amcanion a'r adborth yn well.

Cafodd y dystiolaeth i gefnogi ein cynnydd ei phrofi a'i hadolygu yn ystod yr asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl yn ym mis Mehefin 2016. Rydym wedi dewis defnyddio dull a fframwaith gwell Buddsoddwyr mewn Pobl gan ein bod yn cydnabod bod hyn yn integreiddio'n dda gydag ethos ac uchelgais y Cynulliad, ac mae ganddo'r potensial i gyfrannu'n weithredol tuag at wella perfformiad y sefydliad yn y dyfodol. O ystyried bod y safon Buddsoddwyr mewn Pobl newydd yn fwy heriol, roeddem yn falch iawn o gael adborth cadarnhaol am y ffordd yr ydym yn datblygu ac yn cefnogi ein pobl, ac i gael y statws Aur.

Gwella'r gwaith o gynllunio capasiti ymhellach

Mae'r broses cynllunio capasiti bellach wedi'i sefydlu'n gadarn, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail y sefydliad cyfan ddwywaith y flwyddyn, a'r rheini'n cael eu llywio gan gynigion manwl o bob Cyfarwyddiaeth. O ystyried y gofynion a'r heriau sy'n wynebu'r Comisiwn yn y dyfodol, bydd angen i'r dull o gynllunio capasiti esblygu er mwyn sicrhau bod y galluoedd a'r arbenigedd cywir yn cael eu blaenoriaethu ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn ymateb i'r cyd-destun newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo.

Rydym wedi cymryd camau i gryfhau gwaith cynllunio ymhellach yn ystod 2016/17 drwy alinio cylchoedd cynllunio gwasanaethau a chynllunio capasiti, gan archwilio'r gofynion cynllunio capasiti ar draws y Cyfarwyddiaethau i wneud y gorau o'r ffrydiau gwaith sy'n cyflawni amcanion Strategaeth y Comisiwn, ac alinio'r rhain i amcanion personol pob unigolyn.

Rhoddwyd cryn sylw i integreiddio gwaith timau ar draws y sefydliad ac mae tystiolaeth dda o gydweithio ac ystyried yr effaith y gall gwaith un tîm ei chael ar un arall.

Cefnogi o ran lles

Rydym yn buddsoddi yn iechyd, diogelwch a llesiant ein holl staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff, y contractwyr a phawb sy'n ymweld ag ystâd y Cynulliad, ac rydym yn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar les meddyliol, gan gynnwys cyflwyno'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl. Bryd hynny, ymrwymodd y Comisiwn i addewid Amser i Newid Cymru o ddod â stigma iechyd meddwl i ben yn y gweithle. Hefyd, lansiodd ein polisi iechyd meddwl, a daeth aelod o'r Bwrdd Rheoli yn Hyrwyddwr Iechyd Meddwl y Comisiwn. Cyflwynwyd 'Sgyrsiau Amser i Newid', a oedd yn gyfle i'r staff glywed siaradwyr gwadd yn sôn am eu profiadau. I ategu hyn oll, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.

Yn ystod yr Wythnos Genedlaethol ar gyfer Gwaith a Bywyd, sy'n ymgrych flynyddol i annog cyflogwyr a chyflogeion i ganolbwyntio ar lesiant yn y gwaith, enwyd y Comisiwn yn un o'r lleoedd gorau i weithio yn y DU o ran bod yn ystyriol o deuluoedd. Ni oedd yr unig sefydliad yng Nghymru a enwyd yn y 10 Cyflogwr Gorau – Gwobrau Teuluoedd sy'n Gweithio.

Cymryd camau pellach i fod yn gyflogwr cynhwysol o ddewis, gan gynnwys cryfhau'r rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle ac uwch-hyrwyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn falch o dderbyn cydnabyddiaeth allanol newydd neu barhaus ar gyfer ein gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n cynnwys:

- y pumed safle ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ar gyfer 2017, y cyflogwr sector cyhoeddus gorau yn y DU a'r Corff Sector Cyhoeddus Gorau yng Nghymru am y bedwaredd flwyddyn yn olynol;
- cadw Gwobr y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol am fod yn gyflogwr a darparwr gwasanaeth sy'n ystyriol o awtistiaeth;
- rhestru fel un o'r 10 cyflogwr gorau sy'n ystyriol o deuluoedd yn y DU drwy Working Families Organisation;
- dynodi fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a Chyflogwr yn Gadarn o Blaid Oedran;
- ennill gwobr rhagoriaeth Action on Hearing Loss Cymru;
- rydym wedi cael Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, y safon ryngwladol o ragoriaeth fyd-eang.

Cynyddodd aelodaeth ein rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle ar ôl yr ymgrych aelodaeth a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016. Maent wedi parhau i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant a chydweithio ar ddigwyddiadau. Gwahoddwyd siaradwyr i annerch aelodau'r rhwydwaith, a bu'r aelodau mewn digwyddiadau a chynadledau cymunedol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant ac amrywiaeth, gan rannu'r hyn a ddysgwyd o'r gweithgareddau hyn ag eraill. Mae cydgysylltydd y rhwydwaith staff wedi cefnogi'r rhwydweithiau i gydweithio a chyfrannu at asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd gan staff Comisiwn y Cynulliad. Ar hyn o bryd mae gennym uwch-hyrwyddwyr cydraddoldeb ar gyfer hil, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd ac iechyd meddwl.

Workplace equality networks at the National Assembly:

Rhwydwaith Anabledd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

EMBRACE

Disability Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith LGBT Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OUT-NAW

LGBT Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Hil, Ethnigwydd a Threftadaeth
Ddiwylliannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

REACH

Race, Ethnicity And Cultural Heritage Network
of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Menywod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

INSPIRE

Women's Network of the National Assembly for Wales

Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n
Gweithio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

TEULU

Working Parent and Carer Network of the
National Assembly for Wales

Awards



**INVESTORS
IN PEOPLE** | Gold



**Top Employers
for Working Families**

**LOUDER
THAN
WORDS**



we're supporting

AGE POSITIVE



The National
Autistic Society
Cymru



Cymdeithas
Genedlaethol
Awtistiaeth
Cymru



Gwobr
Ystyriol o
Awtistiaeth

Integreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses benderfynu, a'r broses o lunio a chyflenwi gwasanaethau

Datblygu Cynllun Gweithredu a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Pumed Cynulliad


Cytunodd y Comisiynwyr ar ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Pumed Cynulliad ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r Strategaeth yn disgrifio dull y Comisiwn o gyflawni ei amcanion amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod y Pumed Cynulliad. I gyd-fynd â'r Strategaeth mae cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni ac mae adroddiad yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn ar y cynnydd a wneir. Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar y cynnydd ers ein Cynllun Cydraddoldeb blaenorol, gan ei bod yn integreiddio amrywiaeth a chynhwysiant fwy fyth yng ngwaith beunyddiol y Cynulliad. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau o ran dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a ragnodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Fel rhan o'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, rydym yn datblygu dull o fynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth o bobl sydd o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu'n anabl. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ein cynllun gweithredu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig presennol i gefnogi a datblygu ein cydweithwyr sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a hefyd i ddenu a recriwtio pobl o'r gronfa ehangaf bosibl o dalent, fel bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Mae gwaith cwmpasu wedi'i wneud yn y cyfnod adrodd hwn i ddatblygu adnoddau i staff i'w helpu i reoli rhagfarnau diarwybod ac i adolygu ein dulliau o ddenu a dethol ymgeiswyr.

Integreiddio ymhellach ystyriaethau amrywiaeth a chynhwysiant i waith cynllunio meysydd gwasanaeth.

Mae'r meysydd gwasanaeth yn talu sylw i'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau maes gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod ystyriaethau amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried ar y cyfle cyntaf o ran y gwaith cynllunio ac wrth gyflawni ein gweithgareddau. Drwy Bartneriaid Busnes adnoddau dynol a'r defnydd o wybodaeth adnoddau dynol, rydym yn helpu i nodi materion amrywiaeth a chynhwysiant posibl wrth iddynt ddod i'r amlwg a datblygu argymhellion ac ymyriadau ymarferol i fynd i'r afael â'r rhain a gweithredu ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

Case study: Embed equality impact assessments in the organisation



There has been an increase in the number of equality impact assessments undertaken over the reporting period by policy authors across the service areas. Policy authors have been supported by the Diversity and Inclusion Team to scope and undertake the assessments and our workplace equality networks have also contributed to the assessments.

Over this reporting period, assessments have been undertaken for a range of initiatives including

accommodation refurbishment projects on the estate, the MySenedd programme, our Staff Mental Health Policy, the Public Engagement and Diversity and Inclusion Strategies, the Official Languages Scheme, the Legislative Software System and aspects of the business continuity project.

Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

O dan baragraff 8(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn ei holl waith. Rydym yn gwbl ymrwymedig i'r rhan allweddol rydym yn ei chwarae yng nghyswllt hyrwyddo datblygu cynaliadwy a sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd. Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw, ac rydym wedi cyhoeddi data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd ers 2007/08. Rydym yn mesur ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn eu cyhoeddi mewn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

Y llynedd, dechreuwyd llunio targedau newydd a fydd yn ein harwain at 2020/21, ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd da ar sail y rhain. Rydym eisoes wedi lleihau ein hallyriadau ynni yn sylweddol wrth inni anelu at ein targed o 30 y cant o ostyngiad erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar linell sylfaen 2012/13). Rydym hefyd, bellach, yn sicrhau bod dros 96 y cant o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, gan anelu at darged o beidio ag anfon unrhyw wastraff o gwbl i safleoedd tirlenwi erbyn 2020/21. Rydym wedi gweld gostyngiad parhaus yn y defnydd o ynni, ac mae'r gost o wresogi a phweru ein hadeiladau yn is. Daw hyn yn sgil ein buddsoddiad parhaus yn ein hadeiladau a sicrhau bod technoleg sy'n effeithlon o ran ynni yn cael ei hymgorffori bob tro wrth adnewyddu ac addasu'r adeiladau.

Mae'r teithiau busnes wedi lleihau ers y llynedd ac mae'r gwelliannau yr ydym yn eu gwneud i'n rhaglenni monitro yn ein helpu i ddeall y tueddiadau hirdymor yn well. Rydym yn parhau i weithredu o fewn system reoli amgylcheddol ffurfiol.

Ynni

Mae ein hallyriadau cyffredinol wedi gostwng eto eleni. Cafodd hyn ei gynorthwyo gan ostyngiad parhaus yn y defnydd o drydan, gyda'r defnydd crai (oriau cilowat) wedi gostwng tua 6 y cant ers y llynedd. Mae'r gostyngiad hwn yn ffrwyth ymdrechion sydd wedi cynnwys gwaith pellach ar ein systemau aerdymheru a choil ffan, yn ogystal â'r rhaglen o gyflwyno systemau goleuadau LED ym mhob rhan o'n hadeiladau. Mae'r ffigurau cyfun hyn yn ein harwain tuag at gyflawni ein prif dargedau o leihau allyriadau ynni 30 y cant erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar linell sylfaen 2012/13). Un fantais amlwg yma yw gostyngiad o 7 y cant yn y gwariant ar ynni ers y llynedd.

Teithio

Eleni, bu gostyngiad sylweddol yn y milltiroedd busnes a'r gwariant cysylltiedig. Mae hyn i'w ddisgwyl yn ystod blwyddyn etholiad yn sgil diddymu'r Cynulliad ac yn nyddiau cynnar tymor newydd o bum mlynedd. Mae ein hallyriadau hefyd wedi lleihau, yn bennaf oherwydd y gostyngiad mewn teithiau yr hawlir amdanynt ar draws gweithrediadau'r Cynulliad.

Yn ystod 2016 cyflwynwyd cyflenwr newydd ar gyfer y cynllun seiclo i'r gwaith, sydd wedi symleiddio'r broses weinyddol. Bu cynnydd yn y defnydd a wneir o'r cynllun a'r cyfleusterau ar gyfer storio beiciau. Yn ystod ein harolwg diweddar o deithio, a gynhelir bob dwy flynedd, roedd y defnydd cynyddol hwn o feiciau yn amlwg, ynghyd â gwelliannau eraill megis ceir â maint injan llai. Er nad yw bob amser yn arbed arian i'r sefydliad yn uniongyrchol, mae'r teithio mwy effeithlon hwn wedi lleihau ôl-troed carbon cyfartalog pobl sy'n teithio i'r gwaith.

Gwastraff

Bu cynnydd yn y gwastraff a gynhyrchwyd eleni, ond hefyd cynnydd parhaus yn y swm yr ydym yn ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Rydym bellach yn dargyfeirio dros 96 y cant, gyda'r rhan fwyaf o ddeunyddiau yn cael eu hailgylchu neu eu compostio. Mae ein costau wedi cynyddu eleni, ond ar

gyfradd o bron i hanner y cynnydd mewn tunelli (cynnydd yn y gost o 7 y cant o gymharu â 12 y cant o gynnydd mewn tunelli). Er bod y Cynulliad wedi'i ddiddymu am gyfnod yn ystod y flwyddyn, bu cynnydd mewn casgliadau gwastraff oherwydd rhoi trefn ar swyddfeydd a gwaith cymhennu cyffredinol.

Fel sydd i'w ddisgwyl gyda gwelliannau mewn gofynion deddfwriaethol a thechnoleg, mae ein lefelau o wastraff peryglus wedi gostwng yn sylweddol gydag amser. Gyda'r broses raddol o gael gwared ar hen fonitorau ac offer arall, mae ein llif gwastraff peryglus i raddau helaeth yn cynnwys tiwbiau fflworoleuol ac unedau sylfaen cyfrifiaduron. Mae'r offer hwn yn dal i gael ei gasglu fel gwastraff trydanol ac offer electronig (WEEE), ond rydym yn ymdrechu i wella'r gwerth a gaiff y Cynulliad am wastraff o'r fath.

Mae'r defnydd o bapur wedi gostwng eto eleni ac rydym yn cynyddu biliau electronig a fydd yn help i sicrhau rhagor o ostyngiad. Mae'r holl bapur a brynir yn dal i fod naill ai'n ardystiedig gan FSC neu wedi'i ailgylchu'n llwyr. Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfleusterau ailgylchu yn ein holl adeiladau a byddwn yn ystyried gweithio gyda chyflenwyr yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau gwastraff sy'n deillio o ddeunyddiau pacio.

Dŵr

Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu ychydig eleni, sef 3 y cant, ac mae'r costau wedi cynyddu drwch blewyn dros 2 y cant. Mae costau dŵr yn fwy cyson na'r cyfleustodau eraill. Y rheswm am y gwahaniaeth rhwng cost a defnydd yw bod defnydd sylweddol uwch yn cael ei wneud o system cynaeafu dŵr glaw y Senedd. Rydym yn dal o fewn ein targed o leihau'r defnydd cyffredinol 5 y cant erbyn 2020/21 ac yn priodoli'r cynnydd i'r ffaith fod mwy yn defnyddio'r adeiladau. Bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr (+3 y cant) a 'staff' (gan gynnwys contractwyr a thenantiaid eraill), sef +4 y cant. Byddwn yn parhau i weithio ar welliannau i'r defnydd o ddŵr drwy 2017, yn benodol gwelliannau i gyfleusterau ystafelloedd ymolchi y Pierhead, os bydd digon o adnoddau ar gael.

Gwelliant cyson

Amrywiaeth o fentrau ymddygiadol, yn ogystal â gwelliannau ffisegol i'r ystâd, oedd y gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dyma rai ohonynt:

- cyfnewid y goleuadau yn Siambr Hywel i unedau LED;
- cyfnewid yr holl oleuadau argyfwng yn Nhŷ Hywel gydag unedau LED;
- cyfnewid rhai o'r boeleri yn Nhŷ Hywel gyda rhai mwy effeithlon o ran ynni;
- cyfnewid y goleuadau yn lifftau Tŷ Hywel gydag unedau LED;
- cynnwys nodweddion cynaliadwy gan gynnwys goleuadau LED a theils a wnaed o deiers wedi'u hailgylchu fel rhan o'r gwaith o adnewyddu llawr gwaelod Tŷ Hywel i ddarparu ystafelloedd pwyllgora a manau aros newydd;
- gwella ymwybyddiaeth yn fewnol o nodweddion ein hadeiladau, gan gynnwys helpu staff i ddeall yn well y nodweddion gwresogi ac oeri yn Nhŷ Hywel a'r Senedd; a
- gweithio i wella ein gwaith monitro a meincnodi er mwyn sicrhau ein bod yn cael y data sydd eu hangen arnom i reoli ein hadeiladau yn fwy effeithiol a chymharu'r defnydd o gyfleustodau ar sail y newidiadau yn nifer y staff ac ymwelwyr.

Ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2016 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n berthnasol i'r DU yn unig. Yn unol â chanllawiau DEFRA, nid yw'r allyriadau nwyon tŷ gwyrdr a nodir yn cael eu haddasu i ystyried ffactorau sy'n ymwneud â'r tywydd. Er nad yw'n ofynnol inni, rydym yn adrodd yn bennaf yn unol â Chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd Trysorlys Ei Mawrhydi 2016-17. Caiff ein technegau monitro ac adrodd ar gyfer data cynaliadwyedd cysylltiedig eu hasesu fel rhan o'n harchwiliad amgylcheddol allanol blynyddol.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwyrdr		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Dangosyddion anariannol (tCO ₂ e)	Cyfanswm allyriadau gros cwmpas 1	329	273	561	248	308
	Cyfanswm allyriadau gros cwmpas 2	1,470	1,366	1,480	1,367	1,133
	Cyfanswm allyriadau gros cwmpas 3	432	427	465	375	341
	Cyfanswm yr allyriadau sydd y tu allan i gwmpas	298	167	130	7	4.1
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth	2,588	2,287	2,636	1,997	1,800
	Cyfanswm yr allyriadau net	2,290	2,120	2,506	1,990	1,796
	Gwariant ar wrthbwysladau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth)	£0	£0	£0	£0	£0
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant gros yr ymrwymiad lleihau carbon	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.

Y defnydd o ynni ^{1,2}		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Dangosyddion anariannol (kwh)	Trydan (anadnewyddadwy)	3,194,890	3,067,778	2,995,138	2,791,282	2,623,244
	Nwy	1,741,299	1,431,017	1,295,506	1,214,901	1,481,681
	Biomass (adnewyddadwy)	840,438	470,750	372,225	535,050	308,850
Dangosyddion anariannol (tCO ₂ e)	Cyfanswm yr allyriadau ynni	1,956	1,786	1,881	1,736	1,563
Dangosyddion ariannol (£)	Cyfanswm y gwariant ar ynni	458,168	459,093	448,586	407,442	377,993

¹ Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.

² Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau o'r ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

Teithio swyddogol ^{3, 4, 5}		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Dangosyddion anariannol (milltiroedd)	Teithio ar fusnes	858,809	884,176	1,061,374	875,999	653,042
	Cerbydau sy'n eiddo i'r Cynulliad a cherbydau ar log	25,707	31,949	26,440	27,638	15,803
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar deithiau busnes swyddogol	266,576	349,775	393,509	903,637	259,091

Gwastraff		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Dangosyddion anariannol (tunelli)	Cyfanswm y gwastraff a grewyd	121	118	125	123	140
	Ailgylchu/ailddefnyddio	103	111	119	118	136
	Tirlenwi	17	6.4	4.7	3.7	5
	Compostio gwastraff	11.3	5.5	5.5	12.5	15.9
	Gwastraff peryglus	0.29	0.5	1	0.4	0.15
	Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalenni)	2.77	2.7	2.6	2.48	1.99
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar waredu pob math o wastraff	21,312	26,561	26,930	33,266	35,855

Y defnydd o ddŵr		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Dangosyddion anariannol (m3)	Y defnydd o ddŵr					
	Cyflenwyd (uniongyrchol)	9,449	7,315	6,117	5,174	5,347
	Casglwyd (anuniongyrchol)	2,407	1,301	1,554	502	853
	Tynnwyd (anuniongyrchol)	0	0	0	0	0
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar gyflenwi a charthffosiaeth	31,773	23,681	22,245	18,954	19,376

Nodiadau

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17. Defnyddiwyd ffactorau trosi Defra i gyfrifo'r ffigurau carbon deuocsid cyfatebol (CO₂e) ar gyfer 2016. Mesuriad cyffredinol yw CO₂e a ddefnyddir i gymharu potensial gwahanol nwyon tŷ gwyrdr i achosi cynhesu byd-eang.

Caiff allyriadau eu hadrodd yn seiliedig ar y dull rheoli ariannol a ddefnyddir ar gyfer yr ystâd graidd weinyddol yn unig. Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad.

³ Mae'n cynnwys costau teithio staff cymorth Aelodau'r Cynulliad o 2011/12 ymlaen a theithiau y talwyd amdanynt gan ddefnyddio'r cerdyn credyd corfforaethol.

⁴ Mae'r holl ddata ynghylch teithio bellach yn cynnwys ffigurau cyfredol ac ôl-weithredol yr holl allyriadau o'r ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

⁵ Mae'n eithrio teithio Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2017 o ganlyniad i oedi o ran gofynion adrodd.




Crynodeb o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol

Ebrill 2016 – Mawrth 2017





Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017, yn ôl y nodau strategol a bennwyd. Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar berfformiad corfforaethol ar gyfer y Pumed Cynulliad, ac mae'n cynnwys nifer o brif ddangosyddion, a ddyrannwyd o dan y nodau strategol, sydd wedyn yn cael eu rhannu'n ddangosyddion manylach.











Defnyddir system 'goleuadau traffig' i ddangos perfformiad yn erbyn y targedau o ran dangosyddion:





Allwedd ar gyfer statws Coch/Oren/Gwyrdd:

-  **Coch:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.
-  **Oren:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Serch hynny, mae'n bosibl bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.
-  **Gwyrdd:** Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

Ceir trosolwg cryno isod, gyda'r wybodaeth fanylach am y dangosydd perfformiad allweddol ar gael yn yr Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol blynyddol.

Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf	Ebrill 2015 – Mawrth 2016	Ebrill 2016 – Mawrth 2017
<p>DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd yn ôl y bwriad</p> <p>Perfformiad uchel cyson ar amseroldeb cyhoeddi papurau pwyllgor a phapurau briffio. Oherwydd cynnydd yn nifer yr oriau Cyfarfod Llawn ac oriau pwyllgor, bu gostyngiad bychan yng Nghofnod y Trafodion Pwyllgorau a gyhoeddwyd ar amser, fodd bynnag, mae staff newydd wedi cael eu recriwtio a byddant yn cael eu hyfforddi'n llawn yn fuan. Cafodd sesiwn Cyfarfod Llawn ei gohirio am resymau technegol ym mis Ionawr 2017 yn dilyn methiant pŵer. Mae camau adfer wedi'u cymryd i ddarparu gwytnwch ar gyfer digwyddiad o'r fath yn y dyfodol.</p>	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol</p> <p>Yn ôl y disgwyl, roedd nifer y bobl a fanteisiodd ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn isel yn ystod y cyfnod cyn yr Etholiad ym mis Mai 2016, tra bod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn yr Etholiad. Mae sgôr uchel wedi'i dderbyn ar gyfer yr effaith gadarnhaol a gaiff ar waith cynrychiolwyr. Mae creu Tîm Sgiliau laith newydd wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg.</p>	 Oren	 Gwyrdd

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad	Ebrill 2015 – Mawrth 2016	Ebrill 2016 – Mawrth 2017
<p>DPA 3: Helpu i feithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad</p> <p>Mae lefel bodddhad ymwelwyr yn parhau'n uchel ac mae cynnydd wedi bod yn nifer y teithiau. Gostyngodd nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd yn ystod y cyfnod diddymu cyn Etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016. Yn dilyn yr Etholiad, mae nifer y digwyddiadau a noddir gan Aelodau Cynulliad wedi bod yn arafach na'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd gostyngiad hefyd yn nifer yr ymwelwyr â'r Pierhead o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Roedd hyn o ganlyniad i arddangosfa boblogaidd yn cael ei chynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2015 a ddenodd nifer cynyddol o ymwelwyr, a'r Pierhead ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw am wythnos yn ystod mis Mai 2016.</p>	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad</p> <p>Creodd yr ymgyrch etholiadol rhwng mis Ebrill a mis Mai lefelau uchel o sylw yn y cyfryngau cymdeithasol a gynyddodd nifer y traffig. Roedd hefyd cynnydd mawr yn y defnydd o YouTube ar gyfer y cyfnod hwn.</p>	 Gwyrdd	 Gwyrdd
Defnyddio adnoddau'n ddoeth	Ebrill 2015 – Mawrth 2016	Ebrill 2016 – Mawrth 2017
<p>DPA 5: Gwariant i darged</p> <p>Rydym yn disgwyl nodi sefyllfa diwedd blwyddyn o danwariant o tua £224,000 yn erbyn y gyllideb. Bydd cytundebau a gaiff eu hail-drafod yn arwain at arbedion gwerth £537,600. Mae prydlondeb y taliadau i gyflenwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod ymhell o fewn y targed.</p>	 Gwyrdd	 Gwyrdd
<p>DPA 6: Mae disgwyliadau a gofynion adnoddau o ran staff yn cael eu bodloni</p> <p>Roedd y cyfraddau absenoldeb ar gyfer y cyfartaledd treigl o 12 mis yn dangos gostyngiad bach dros y cyfnod o chwe mis cyntaf, yn rhannol oherwydd ffactorau tymhorol ac yn rhannol oherwydd gostyngiad mewn achosion o salwch hirdymor. Fodd bynnag, wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, nodwyd y cynnydd arferol mewn afiechydon tymhorol fel peswch, annwyd ac ati. Mae'r cyfraddau absenoldeb cyfartalog yn is na ffigur meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) o 3.7 y cant, ond yn uwch na tharged y Cynulliad o 3 y cant. Cynyddodd nifer y bobl a gwblhaodd adolygiadau perfformiad staff erbyn y dyddiad cau; bu gostyngiad yn nifer y staff yn cwblhau'r arolwg staff blynyddol, ond mae'r gyfradd ymateb yn dal i fod yn uwch na chanolrif y Gwasanaeth Sifil. Mae cyfanswm y staff wedi cynyddu ychydig.</p>	 Oren	 Oren
<p>DPA 7: Mae gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu yn ôl y bwriad</p> <p>Er gwaethaf llwyth gwaith trwm ar ôl yr etholiad i gefnogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff gyda gosod TGCh mewn swyddfeydd, mae safonau perfformiad y gwasanaeth wedi gwella.</p>	 Oren	 Gwyrdd







Defnyddio adnoddau'n ddoeth	Ebrill 2015 – Mawrth 2016	Ebrill 2016 – Mawrth 2017
<p>DPA 8: Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl y gofyn</p> <p>Daeth nifer fawr o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i law yn ystod y cyfnod hwn gyda saith cais yn cael eu dychwelyd yn hwyrach na'r terfyn amser statudol. O'r rhain, roedd rhai ceisiadau yn cynnwys nifer o feysydd gwasanaeth ac felly roedd angen ymgynghoriad ychwanegol gyda thimau, tra bod ceisiadau eraill yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol, lle roedd yn rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r unigolion dan sylw yn y data.</p>	 Gwyrdd	 Oren
<p>DPA 9: Mae targedau amgylcheddol yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad</p> <p>Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud yn erbyn y gostyngiad yng nghyfanswm yr allyriadau ynni a thargedau dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi sicrhau gostyngiad o 17.1 y cant yng nghyfanswm yr allyriadau ynni o gymharu â llinell sylfaen 2012-13 ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o ostyngiad o 30 y cant erbyn 2021.</p>	 Gwyrdd	 Gwyrdd

Arolwg Boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth

Ym mis Chwefror, gofynnir i'r Aelodau Cynulliad a staff cymorth gwblhau arolwg boddhad blynyddol er mwyn helpu i fesur pa mor dda y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan staff y Comisiwn wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cwestiynau'n defnyddio graddfa 10 pwynt, lle mae 1 = gwael a 10 = ardderchog. Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau yma.

Ni chafodd yr arolwg boddhad ei gwblhau yn 2016 oherwydd Etholiad y Cynulliad; ac felly darperir data o 2015 er mwyn cymharu. Noder: yn dilyn yr adolygiad o'r arolwg boddhad ar gyfer y Pumed Cynulliad, nid oes data cymharol ar gael ar gyfer pob dangosydd.

Nod strategol – Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

	Targed	2015	2017	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer Pwyllgorau'r Cynulliad	8	8.3	8.5	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir i'r Cyfarfod Llawn	8	8.6	8.4	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer gwaith etholaethol	8	-	8.2	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir i ymgymryd â'ch gwaith yn eich dewis iaith	8	8.8	8.9	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau	8	9.0	8.9	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir drwy'r swyddogaeth Datblygiad Proffesiynol	8	8.2	8.3	

Nod strategol - Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

	Targed	2015	2017	
Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth ymgysylltu â phobl Cymru	8	7.2	6.9	●
Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth hyrwyddo gwaith y Cynulliad	8	-	7.0	●

Nod strategol – Defnyddio adnoddau'n ddoeth

	Targed	2015	2017	
Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn Nhŷ Hywel	8	8.2	8.3	●
Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y Senedd	8	8.2	8.4	●
Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y swyddfeydd etholaethol neu'r swyddfeydd rhanbarthol	8	7.2	7.9	●
Y dewis cyffredinol o offer TGCh sydd ar gael	8	-	7.9	●
Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer Tŷ Hywel a'r Senedd	8	8.4	8.7	●
Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer swyddfeydd etholaethol neu swyddfeydd rhanbarthol	8	-	8.0	●

Noder: Caiff y data eu dangos fel sgôr cyfartalog a ddarperir gan Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017

- ▼ Cynhaliodd y Senedd ddathliad i nodi dydd Gŵyl Dewi 2017, â pherfformiadau gan rai o dalentau gorau Cymru, gan gynnwys Côr Meibion Beaufort.



Ein hatebolrwydd: Llywodraethu corfforaethol



Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi cael ei lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio berthnasol.

Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, a'r Comisiynwyr wedi'i chynnwys ar dudalennau 86- 90.

Y cynghorwyr annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau annibynnol y pwyllgorau wedi'i chynnwys ar dudalennau 92 – 94.

Y Pwyllgor Taliadau

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor Taliadau wedi'i chynnwys ar dudalen 94.

Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn wedi'i chynnwys ar dudalennau 95 – 96.

Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.

Trafferthion yn ymwneud â data personol

Nid oedd unrhyw achosion o drafferthion yn ymwneud â data personol na cholli data personol rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd dau fân achos o dorri'r rheolau ar ddata personol yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli yn fewnol. Gan fod y tebygolrwydd o achosi niwed neu ofid i wrthrych y data yn yr achosion hyn yn isel, barnwyd nad oedd angen cymryd camau pellach.

Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w weld ar dudalen 112.

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £62,958 (£66,250 2015-16). Ni chynaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2016-17 (£2,650, 2015-16).

Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Y cyfarwyddyd o ran cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalenau 106 i 119 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi, ac mae nodiadau esboniadol yn eu hategu. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.


Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad:

www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017



Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn; yr alldro adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisiâu cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017

Datganiad llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sut y caiff ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

Rôl y Comisiwn

Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) ei sefydlu fel corff corfforaethol o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ei brif rôl yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad, neu sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu ar ei gyfer. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei faterion, hwyluso'r dull o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

Mae Deddf Cymru 2017, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2017, yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a setliad cyfansoddiadol Cymru. Mae'n cynnwys datganiad fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ystyried yn rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU ac yn rhoi swyddogaethau newydd ar y Llywydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn datganoli pŵer i'r Cynulliad o ran ei drefniadau mewnol, gweithredol ac etholiadol, gan gynnwys swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, gan alluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn newid y rhain yn y dyfodol os bydd am wneud hynny.

Y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy. Mae'n cynnwys fframweithiau ar gyfer: cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; caffael; a rheolaeth ariannol. Mae gennym bolisiau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae gennym bolisiau clir hefyd yn ymwneud â thwyll, llygredigaeth, llwgrwobrwyath a chwythu'r chwiban. Mae'r fframwaith llywodraethu yn galluogi'r Comisiwn i gynllunio ar gyfer, a monitro, sut y mae wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion strategol ac ystyried a yw hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Y strwythur llywodraethu

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad. Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Maent yn pennu amcanion a nodau strategol y sefydliad, yn darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith ac yn goruchwyllo ac yn adrodd ar yr hyn a gyflawnir.

Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Mae'n atebol i'r Comisiwn am gyflawni ei nodau strategol. Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, hi sy'n atebol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yng Nghomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Cynulliad.

Yn dilyn cystadleuaeth agored a chadarn, ym mis Ionawr 2017 penodwyd y Dr Manon Antoniazzi yn Brif Weithredwr a Chlerc newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru; dechreuodd yn ei swydd a dod yn Brif Swyddog Cyfrifyddu ar 24 Ebrill. Gwnaed trefniadau i sicrhau bod yr awenau'n cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth iddi.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mae gan y Comisiwn **Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**⁶ a Phwyllgor Taliadau. Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgorau hyn ar gael ar dudalennau 79 a 92-94 o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn y drefn honno. Mae **Bwrdd Taliadau**⁷ annibynnol yn pennu cyflogau a chymorth ariannol arall ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl etholiad mis Mai 2016, mabwysiadodd y Comisiwn newydd gyfres o **egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol**⁸, sy'n gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus. Cânt eu defnyddio i lywio gwaith y Comisiwn a'i staff. Mae'r Comisiwn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Mae'r adran ar Sicrwydd yn disgrifio sut y cafodd tystiolaeth yn y maes hwn ei chasglu drwy ddatganiadau sicrwydd a thrwy ddefnyddio'r Fframwaith Sicrwydd.

Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwyllo'r modd y cyflawnir amcanion a nodau strategol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo llawer o'i swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Cytunodd Comisiwn newydd y Cynulliad ar y ddirprwyaeth ffurfiol ym mis Mehefin 2016; mae'n amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn arnynt.

Ers mis Awst 2016, mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair Gyfarwyddiaeth (Busnes y Cynulliad, Adnoddau Cynulliad a Gwasanaethau'r Comisiwn), sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr. Cyn hyn, roedd yna bum Gyfarwyddiaeth, ond erbyn hyn, mae'r cyn-Gyfarwyddiaeth Gyllid yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau a'r cyn-Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhan o Gyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r prosesau rheoli

⁶ <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=373>

⁷ <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=375>

⁸ http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/comm-corporate-framework/Pages/governance_principles_supporting_provisions.aspx

mewnol ffurfiol o ganlyniad i'r newidiadau strwythurol ond mae Cynllun Dirprwyo Comisiwn y Cynulliad wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r trefniadau newydd

Mae'r Cyfarwyddiaethau hynny wedi'u rhannu'n feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth, yn cwrdd yn rheolaidd, a hynny'n ffurfiol ac yn anffurfiol, i adolygu a chydgysylltu materion polisi a materion gweithredol. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro perfformiad corfforaethol a'r risgiau sylweddol o ran cyflawni nodau strategol a blaenoriaethau'r Comisiwn. Mae'n ofynnol i aelodau'r Bwrdd Rheoli weithredu'n gorfforaethol er budd y Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd yn datgan bod angen iddo sicrhau bod perfformiad, gwelliannau a chamau gweithredu'r Comisiwn yn cyd-fynd â'i weledigaeth a'i werthoedd.

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu system lywodraethu o awdurdodau dirprwyedig at ddibenion rheoli adnoddau, sy'n cynnwys cyllid, staffio a chyfrifoldebau eraill sy'n ymwneud ag adnoddau, fel caffael.

Mae'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn rhoi cyfeiriad i brosiectau a mentrau newid pwysig a roddir ar waith ar draws y Comisiwn, ac yn goruchwyllo'r drefn lywodraethu ar gyfer y prosiectau hynny. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau cyllido, y capasiti i ddarparu gwasanaethau a'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu. Mae hefyd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo achosion busnes ar gyfer recriwtio. Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar gyflawni rhaglenni a phrosiectau o fewn eu Cyfarwyddiaethau er mwyn darparu sicrwydd parhaus ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau. Mae prosesau ffurfiol yn bodoli ar gyfer darparu gwybodaeth am raglenni a phrosiectau i'r Comisiwn, y Bwrdd Rheoli, a'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau.

Cynllunio a mesur perfformiad

Cytunodd y Comisiynwyr ar **strategaeth newydd cryf a chlr ar gyfer y Pumed Cynulliad, 2016-21**, ym mis Mehefin 2016. Roedd yn cynnwys blaenoriaethau strategol mwy manwl i ddarparu cyfeiriad a llywio'r gwaith cynllunio ar gyfer dwy flynedd gyntaf y Pumed Cynulliad. Cafodd Datganiad o Ddiben y Comisiwn ei ddiweddarau i adlewyrchu pwerau codi trethi newydd y Cynulliad. Mae'r strategaeth yn ystyried ffactorau sy'n sbarduno a dylanwadau allanol a fydd yn llunio gwasanaethau'r Comisiwn, gan gynnwys newid cyfansoddiadol a'r byd digidol sy'n newid. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gwasanaeth diwygiedig ac amcanion perfformiad unigol.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn ymgymryd â gwaith craffu ddwywaith y flwyddyn ar gynlluniau gwasanaeth a chynlluniau capasiti. Bwriad y drefn hon yw sicrhau bod cynllunio effeithiol yn digwydd mewn perthynas â gofynion y Comisiwn ar hyn o bryd, ynghyd â'i ofynion at y dyfodol.

Mae'r Comisiwn wedi parhau i gyhoeddi Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol, gan ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol ynddynt. Mae'r dangosyddion hyn yn dangos perfformiad uchel parhaus mewn nifer o wasanaethau, a gwelliannau mewn meysydd penodol lle gwnaed ymdrechion arbennig. Mae'r Comisiynwyr a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi parhau i gael budd o'r adroddiadau hyn. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o fesurau perfformiad ar gyfer y Pumed Cynulliad a chytunwyd ar broses safonol newydd ar gyfer llunio'r Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol, sy'n sicrhau bod yr holl ddata yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd gan y Pennaeth

Gwasanaeth perthnasol. Arweiniodd yr adolygiad at set wedi'i diweddarau o ddangosyddion, wedi'u cyflwyno mewn fformat newydd, a gymeradwywyd gan y Comisiwn ym mis Medi 2016.

Cynnydd a pherfformiad

Nodwyd tri maes i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2015-16 ac amlinellir y cynnydd isod:

- **parhau i ganolbwyntio ar gapasiti a chynllunio gwasanaethau i'n galluogi i ymateb yn hyblyg i'r galw newydd o gofio y newid mawr y bydd yn ein hwynebu**
Mae'r broses cynllunio capasiti bellach wedi'i sefydlu'n gadarn, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail sefydliad cyfan ddwywaith y flwyddyn, wedi'u llywio gan gynigion manwl o bob Cyfarwyddiaeth. O ystyried y gofynion a'r heriau sy'n wynebu'r Comisiwn yn y dyfodol, bydd angen cynnal y dull o gynllunio capasiti, a bod yn ddigon soffistigedig i sicrhau bod y galluoedd a'r arbenigedd cywir yn cael eu darparu i gefnogi blaenoriaethau'r Comisiwn.
- **parhau i ganolbwyntio ar gapasiti a'r gallu o ran gwasanaethau dwyieithog**
Mae Strategaeth newydd y Comisiwn yn gosod yr uchelgeisiau a'r blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd y Comisiwn a fydd yn cael ei roi gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo yn 2017. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn darparu'r lefel gywir o adnoddau i ymateb i ofynion busnes, yn parhau i wella pob gwasanaeth dwyieithog ac yn darparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra i bob aelod o staff sy'n dysgu ac yn gwella eu Cymraeg.
- **ymateb i'r ffyrdd gwahanol y mae'r cyhoedd yn ymgysylltu â'r Cynulliad**
Mae ystod newydd uchelgeisiol o waith wedi dechrau, gan gynnwys sefydlu Senedd Ieuenctid a Thasglu Newyddion a Gwybodaeth Ddigidol i'n cynorthwyo wrth lunio sut y gallwn ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol, ac mae'r rhaglen FySenedd a fydd yn helpu i gyflawni eu hargymhellion wedi dechrau ar y dasg o lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol yn seiliedig ar well dealltwriaeth o sut y mae'r cyhoedd yn ymgysylltu â ni.

Mae perfformiad ac ymgysylltiad staff yn hanfodol i gyflawni safonau uchel o wasanaeth. Mae prosesau a pholisïau ar waith i sicrhau bod gennym y sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a bod staff yn cael yr arweinyddiaeth, y datblygiad personol a'r gefnogaeth er mwyn eu galluogi i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda staff yn rheolaidd, fel y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Cynhaliwyd y pumed arolwg staff ym mis Mai 2016. Cafwyd cyfanswm o 384 (85 y cant) o ymatebion. Roedd y canlyniadau yn dangos sgôr mynegai ymgysylltu o 72 y cant, yr un sgôr ag ym mis Mehefin 2015; dim ond tri sefydliad gwasanaeth sifil yn y DU gafodd sgôr mynegai ymgysylltu uwch. Rhwng yr arolygon ym mis Chwefror 2012 a mis Mehefin 2016 roedd gwelliant yn 8 o'r 9 cwestiwn craidd. Mae canlyniadau'r arolwg yn cadarnhau diwylliant cadarnhaol a chynhwysol y sefydliad.

Mae dros 95 y cant o adroddiadau perfformiad staff y Comisiwn wedi'u cwblhau mewn da bryd ac mae'r trafodaethau perfformiad wedi pwysleisio 'sut' y mae tasgau neu amcanion wedi cael eu cwblhau er mwyn cydnabod cyfraniadau a nodi datblygiad ar gyfer unigolion yn fwy effeithiol.

Rhodddwyd cryn sylw i integreiddio gwaith timau gwahanol ar draws y sefydliad ac mae tystiolaeth dda o gydweithio ac ystyried yr effaith y gall gwaith un tîm ei chael ar un arall.

Cyflawni nodau strategol

Mae ein trefniadau llywodraethu cryf wedi cyfrannu'n uniongyrchol at nifer o'r llwyddiannau mewn perthynas â'n nodau strategol, sydd wedi'u nodi yn yr adran dadansoddi perfformiad ar dudalennau 22 i 65 o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Er enghraifft:

- trosglwyddiad didrafferth ac effeithiol i'r Pumed Cynulliad, gan gynnwys trefniadau cynefino llwyddiannus ar gyfer Aelodau Cynulliad newydd-etholedig a chefnogaeth ar gyfer y rhai na chafodd eu hailethol. Roedd lefel uchel o gydgyssylltu a chynllunio yn golygu bod y Cynulliad newydd yn gallu mynd ati i weithio ym mhob maes ar unwaith. Effaith gweithredu dulliau cadarn ac amlwg o reoli risgiau ar lefel gorfforaethol oedd lliniaru ar y risgiau hyn mewn modd effeithiol;
- dechrau'n gyflym ar strategaeth a blaenoriaethau'r Comisiwn newydd, heb amharu ar y safonau uchel o wasanaeth. Mae'r gwaith newydd wedi symud yn ei flaen yn gyflym ac roedd yn cynnwys: cynnal ymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad; paratoi i sefydlu Senedd leuentid; ffurfio strategaeth newydd i ymgysylltu â'r cyhoedd; lansio'r gwaith ar ddiwygio maint y Cynulliad a'i system etholiadol; a sefydlu rhaglen FySenedd sy'n canolbwyntio ar gyflawni ein gweledigaeth o fod yn senedd digidol rhagorol erbyn diwedd y Cynulliad hwn. Llwyddwyd i wneud cynnydd yn y meysydd blaenoriaeth hyn i raddau helaeth drwy gynllunio effeithiol, cydweithredu a rheoli risgiau;
- cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'n Gwasanaeth Diogelwch mewn ymateb i ofynion busnes sy'n newid a'r cynnydd yn sefyllfa ddiogelwch y wlad. At hynny, o ystyried y sefyllfa ddiogelwch ledled y byd, mae sylw arbennig wedi'i roi i Aelodau'r Cynulliad ar lywodraethu gwybodaeth, seiber ddiogelwch, diogelwch mewn swyddfeydd etholaethol a diogelwch personol;
- cyflawni'r prosiect i ddisodli technoleg y Siambr, y gwaith o reoli'r Cyfarfod Llawn a'r systemau pleidleisio mewn da bryd ac o fewn y gyllideb. Arweiniodd y cynnydd yn nifer y pwyllgorau at ailwampio Tŷ Hywel yn sylweddol er mwyn creu ystafelloedd pwyllgora ychwanegol a man cyfarfod hyblyg. Roedd prosesau cynllunio prosiectau a phrosesau rheoli risgiau effeithiol yn allweddol i gyflawni'r amcanion; a
- datblygiadau technolegol, fel y mudo i wasanaethau Cwmwl. Bu'r prosesau llywodraethu cadarn, gan gynnwys craffu ar achosion busnes, o gymorth i gyflawni'r amcanion o ddarparu pensaernïaeth gynaliadwy, syml ac y gellir ei ehangu sy'n ddiogel ac yn sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran busnes a pharhad busnes.

Rheolaeth a pherfformiad ariannol

Mae ethos gwelliant parhaus y Comisiwn wedi'i adlewyrchu ym maes rheolaeth a pherfformiad ariannol. Rydym wedi gwneud rhagor o welliannau o ran rheolaeth ariannol, adrodd a'r gallu i ragweld er mwyn bod yn hyblyg i wneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael inni. Yn benodol, rydym wedi:

- cynyddu capasiti, sgiliau a gwytnwch y tîm cyllid;
- gwella ein prosesau cysoni; a
- gwella'r wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Mae hyn wedi gwella prosesau cadarn y Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau a sut y mae'n blaenoriaethu penderfyniadau buddsoddi.

Cafodd effeithiolrwydd y rheolaeth ariannol ei hadlewyrchu yn y canlynol:

- archwiliad glân o gyfrifon ac adborth cadarnhaol gan Gadeirydd y Bwrdd Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a amlygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- gostyngiad yn y ffi archwilio ar gyfer 2015-16, a hynny'n adlewyrchu'r arferion gweithio gwell a'r papurau sy'n perthyn i ddull archwilio newydd gan arwain at broses archwilio effeithlon a didrafferth;
- archwiliad i'r tri maes sy'n rhan o'r Gwasanaethau Ariannol (rheolaethau ariannol allweddol, rheolaeth gyllidebol a gweinyddu pensiwn) o fewn y 18 mis diwethaf, a arweiniodd at farn archwilio gref a oedd amlygu tystiolaeth o'r gwaith cynhwysfawr a wnaed i gynnal amgylchedd rheoli mewnol cadarn y Comisiwn;
- datganiadau ariannol interim a gynhyrchwyd o fewn wythnos i ddiwedd cyfnod mis Tachwedd, sy'n arfer da ac yn cael ei groesawu gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- cyflawniad llwyddiannus o ddangosyddion perfformiad ariannol allweddol, a arweiniodd at y penderfyniad i bennu targed mwy heriol o ran ein safle alltro terfynol i fod o fewn 0.5 y cant o'n gyllideb;
- ffocws y Comisiwn ar sicrhau gwerth am arian yn parhau ac am y chweched flwyddyn yn olynol rydym yn rhagori ar ein targed arbedion o £500,000;
- cafodd trefniadau'r gyflogres eu harchwilio yn llwyddiannus, ac am y tro cyntaf, dyfarnwyd Achrediad Sicrwydd y Gyflogres ac Achrediad Partneriaethau Ansawdd y Gyflogres Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol y Gyflogres i Dîm y Gyflogres;
- yn ystod 2016-17, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus waith craffu ar gyllideb a pherfformiad y Comisiwn; a
- system gyllid newydd, a lanswyd yn llwyddiannus ar 3 Ebrill 2017, a fydd yn sicrhau manteision drwy greu mesurau effeithlonrwydd yn y tîm cyllid, gan ddarparu gwybodaeth amser real i ddeiliaid y gyllideb a gwella adroddiadau rheoli ariannol a bydd yn gwella'r rheolaethau yn ymwneud â chaffael ymhellach.

Rheoli a nodi risg

Mae'r system reoli fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu risgiau a allai effeithio ar allu'r Comisiwn i gyflawni ei flaenoriaethau a'i nodau strategol, ac i gydymffurfio â'i bolisiau a'i weithdrefnau. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyried pa mor debygol yw'r risgiau hynny o gael eu gwireddu a'r effaith pe byddant yn cael eu gwireddu, a sut y gellir rheoli'r risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus.

Cynhaliodd Bwrdd Rheoli y Comisiwn adolygiadau o'i risgiau mwyaf sylweddol drwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys asesiad manwl o risgiau sy'n ymwneud â chyflawni'r blaenoriaethau strategol a bennwyd gan y Comisiwn newydd a pharatoi i ymateb i newid cyfansoddiadol a'r bleidlais i adael yr UE. Mae'r Bwrdd hefyd wedi edrych tua'r gorwel yn rheolaidd am risgiau sy'n dod i'r amlwg ac mae wedi monitro'r risgiau hynny'n agos gan lunio adroddiad arnynt i sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol. Yn sgil hynny, nododd gamau pellach i wella'r rheolaethau.

Ar ddiwedd y flwyddyn 2016-17, roedd y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys rhai risgiau strategol sylweddol y bydd angen eu rheoli'n effeithiol, gan gynnwys:

- methu â nodi gyrwyr ar gyfer newid yn ein capasiti corfforaethol i gefnogi'r Aelodau ac o ganlyniad i hynny yn methu ag ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ofynion newydd;
- mwy o bwysau ariannol ac adnoddau annigonol i ariannu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau a nodau strategol y Cynulliad;
- adweithiau negyddol i gynigion i newid enw'r Cynulliad, cynyddu maint y Cynulliad, neu newid y trefniadau etholiadol;
- methiant ar ran y Cynulliad i gymryd rhan effeithiol yn y broses o adael yr UE drwy ddylanwad a chraffu, a pharatoadau annigonol ar gyfer yr effaith ar fusnes y Cynulliad;
- risgiau diogelwch megis bygythiadau seiber ac ymosodiadau terfysgol; a'n
- parodrwydd ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd a ddaw i rym ym mis Mai 2018.

Mae'r gofrestr yn cynnwys manylion am y rheolaethau a'r camau ymarferol y mae Comisiwn y Cynulliad wedi eu rhoi ar waith i helpu i liniaru'r risgiau hyn, sy'n cynnwys: mwy o ffocws ar gynllunio gwasanaethau a chapasiti; hyfforddi staff; sefydlu gweithgorau, a datblygu a gwella TGCh ac amddiffynfeydd diogelwch ffisegol.

Un o'r ystyriaethau allweddol yw'r effaith gronns ar y sefydliad o ran rheoli'r risgiau hyn ar yr un pryd. Mae ein dull o reoli risg wedi ein galluogi i gynllunio ein hymateb i'r heriau hyn yn effeithiol cyn belled ag y bo modd. Hyd yma, mae hefyd wedi ein galluogi i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i newid a'i gyflawni gan barhau i gynnal safonau uchel o wasanaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli risg ac wedi ystyried risgiau corfforaethol penodol mewn mwy o fanylder drwy gydol y flwyddyn. Croesawodd y Pwyllgor yr asesiad parhaus a gwelededd y risgiau a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd.

Mae adolygiad hefyd wedi'i wneud o ddogfennaeth Proses a Pholisi Rheoli Risg y Comisiwn a dosbarthwyd y fersiynau diweddaraf, sy'n amlinellu'r prif newidiadau, ar draws y Comisiwn. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016, dywedodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod y ddogfennaeth yn gynhwysfawr ac yn drylwyr.

Sicrwydd

Fframwaith Sicrwydd

Defnyddir Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth ynghylch y lefelau sicrwydd. Mae'r dystiolaeth yn cyfrannu at ddatganiadau sicrwydd y meysydd gwasanaeth, ac mae'r rheini, yn eu tro, yn cyfrannu at ddatganiadau sicrwydd y cyfarwyddiaethau. Ychwanegwyd haen arall o sicrwydd drwy fod un o'n cynghorwyr annibynnol yn craffu ar y broses o gasglu tystiolaeth, yn ogystal â'r datganiadau sicrwydd, a'u herio. Mae'r fframwaith yn dangos cryfder cyffredinol ffynonellau'r Comisiwn o sicrwydd. Bydd y dull o gasglu tystiolaeth am sicrwydd a llunio adroddiadau amdano yn cael ei werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ateb y diben.

Is-bwyllgorau'r Comisiwn

Mae'r **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** yn cynnwys dau gynghorydd annibynnol, gydag un ohonynt yn Gadeirydd, aelod pwyllgor annibynnol arall a Chomisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gyllid a llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth ymgynghorol, ond nid oes ganddo bwerau gweithredol. Cyfarfu bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad, adroddiadau ar reoli risg, a'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys tri chynghorydd annibynnol, gydag un ohonynt yn Gadeirydd. Corff cynghori heb unrhyw bwerau gweithredol yw'r Pwyllgor Taliadau ac mae'n gwneud argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr ac uwch-swyddi eraill. Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod y trefniadau o ran taliadau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd ar gyfer y defnydd o arian cyhoeddus drwy roi cyngor, pan ofynnir am hynny, i'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr ar eu cyfrifoldebau am arfarnu, a'r polisiau a'r systemau o ran taliadau.

Archwiliad mewnol

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i fod yn fodlon ar y dull o archwilio mewnol a'r sicrwydd a geir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. Darperir sicrwydd ar draws amryw wasanaethau'r Comisiwn. Mae'r pwyslais ar waith dilynol ac ymrwymiad cryf y rheolwyr i weithredu argymhellion wedi parhau. Cyfrannodd aelodau'r Pwyllgor at Asesiad o Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol a gwnaed sylwadau ffafriol ar yr effaith y mae archwilio mewnol yn ei chael. Daeth yr asesiad i'r casgliad fod Archwilio Mewnol yn gyffredinol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Roedd Cynllun Archwilio Mewnol 2016-17 yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd wedi'u hamlygu fel risgiau ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn, yn ogystal â phryderon y tynnwyd sylw atynt mewn adolygiadau archwilio blaenorol neu drafodaethau gydag uwch-reolwyr.

Mae'r adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae'r Comisiwn yn dangos sut y mae'n glynu wrth arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau y mae wedi'u sefydlu. Fodd bynnag,

mewn meysydd lle mae gwendidau neu broblemau'n dod i'r amlwg, mae rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad. Er enghraifft, mae gan wasanaeth TGCh y Comisiwn gynllun gweithredu manwl i fynd i'r afael â'r holl argymhellion a godwyd yn yr adroddiad archwilio mewnol ar ddiogelwch seiber. Aethpwyd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas â chaffael drwy wella'r rheolaethau ar gyfer yr awdurdodiad awtomataidd yn system gyllid newydd y Comisiwn.

Barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17 yw bod y prosesau rheoli risg, y rheolaethau a'r prosesau llywodraethu yn ddigonol ac yn effeithiol ar y cyfan i gyflawni nodau ac amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Datblygiadau corfforaethol

Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd adolygiad llawn o ymagwedd y Comisiwn tuag at effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad, gan ystyried barn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno safbwynt cynhwysfawr a chafodd ei roi i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn ategu ei waith o graffu ar gyllideb y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2016. Fe'i cyhoeddwyd hefyd ar dudalennau gwe y Comisiwn. Bydd ein dull gweithredu yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pob menter newid newydd yn cael ei darparu ar sail asesiad cost / budd, fod ein hadolygiadau cynllunio gwasanaethau a chynllunio capasiti yn bwrw ymlaen ar sail manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau i gyflawni strategaeth ac amcanion y Comisiwn, a'n bod yn herio ein hunain yn gyson i sicrhau gwerth am arian. Ym mis Mawrth 2017, argymhellwyd hefyd mewn adroddiad archwilio mewnol ynghylch rheoli prosiectau fod meini prawf ar gyfer blaenoriaethu yn cael eu pennu er mwyn penderfynu pa brosiectau y dylai'r Comisiwn eu rhoi ar waith yn y dyfodol. Dylai'r meini prawf hyn gynorthwyo'r Comisiwn i benderfynu ar y buddsoddiadau mwyaf priodol i'w gwneud, a sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau sydd ganddo.

Rydym yn parhau i wella'n trefniadau ar gyfer cynllunio parhad busnes, gan gynnwys nodi, ymweld ac asesu nifer o leoliadau amgen, lle gallem sefydlu'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau yn gyflym pe na fyddai'r Senedd a Thŷ Hywel ar gael. Yn ôl adolygiad archwilio mewnol o reoli risg ar lefel gwasanaeth, mae trefniadau boddhaol ar waith ac mae'r holl argymhellion ar gyfer gwella wedi cael eu gweithredu.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o bolisiau'r Comisiwn ar dwyll a chwythu'r chwiban. Ym mis Mawrth 2017, rhoddodd wybod i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg na fu unrhyw newidiadau i'r naill bolisi na'r llall yn ystod 2016-17. Fodd bynnag, drwy aelodaeth o rwydweithiau ac adolygiad helaeth o'r deunydd diweddaraf gan sefydliadau megis Trysorlys ei Mawrhydi, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru a Public Concern at Work, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ac yn gofalu fod y polisiau yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol, yn gyfoes ac yn adlewyrchu'r arferion diweddaraf gorau.

Ni chofnodwyd unrhyw achos o dwyll yn ystod 2016-17. Lluniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a Barn. At hynny, ni fu unrhyw achos o chwythu'r chwiban yn ystod 2016-17. Dywedodd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth na fu unrhyw achos o drafferthion yn ymwneud â data personol na cholli data personol rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 yr oedd gofyn rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt.

Mae'r Comisiwn yn monitro'n ffurfiol lefelau o gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheolaiddio. Mae'r adroddiadau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn enghreifftiau o'r drefn hon.

O fewn meysydd gwasanaeth, defnyddiwyd nifer o ddulliau ymarferol i sicrhau llywodraethu da – diwrnodau rheolaidd i ffwrdd ar gyfer gwasanaethau a chyfarfodydd i'r holl staff, staff gyda chyfrifoldebau llywodraethu penodol, diwrnodau datblygu, cyfarfodydd rheoli rheolaidd, dibyniaeth ar ganllawiau gan wasanaethau canolog ac archwiliadau pwnc penodol.

Sicrwydd Allanol Annibynnol

Mae cynghorwyr annibynnol anweithredol y Comisiwn yn darparu cymorth i Gomisiwn y Cynulliad a'i waith ac yn ei herio mewn ffordd adeiladol. Mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd, cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer arfarnu staff a'r polisiau a systemau talu, a chynnal trosolwg beirniadol o reolaethau ariannol y Comisiwn a'r gweithdrefnau rheoli risg.

Mae'r **Bwrdd Taliadau**, sy'n annibynnol yn unol â statud, ac sydd â chyfrifoldeb dros bennu cyflogau, pensiynau a chymorth ariannol i'r Aelodau a'u staff, yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn sylweddol. Mae'r defnydd a wneir o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac yn parhau i fod yn effeithiol, gan ddiogelu enw da yr Aelodau a'r Cynulliad.

Ceir sicrwydd tebyg gan y **Comisiynydd Safonau** annibynnol. Mae bodolaeth y swyddfa, ac arbenigedd, profiad a llwyddiant eithriadol y Comisiynydd Safonau blaenorol a'r un newydd, yn darparu lefel uchel o sicrwydd o ran ymddygiad yr Aelodau a'r drefn safonau.

Mae'r gydnabyddiaeth allanol annibynnol a gafodd y Comisiwn hefyd yn bwysig ac yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddynt. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cadw ein hachrediad Aur gan Buddsoddwyr Mewn Pobl a hynny ar sail y fframwaith asesu newydd a mwy heriol; mae Working Families wedi dynodi'r Comisiwn yn Arloeswr Absenoldeb Rhiant a Rennir; cafodd y Cynulliad ei enwi yn un o'r 10 Cyflogwr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio yn 2016; roeddem yn bumed yn y rhestr o 100 o gyflogwyr gorau Stonewall yn y DU; daethom i'r brig ymhlith cyflogwyr sector cyhoeddus gorau y DU; enillodd y Cynulliad Wobr Ystyriol o Awtistiaeth y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol am y drydedd flwyddyn yn olynol ac enillodd hefyd Wobr Rhagoriaeth arall gan Action on Hearing Loss Cymru.

Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Canolbwynt yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a herio a gwblhawyd gan y Bwrdd Rheoli ar 6 Chwefror 2017. Ystyriodd yr adolygiad hwn y datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth, ac roedd aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn bresennol i gynnig her annibynnol. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â sicrwydd ar y materion a ganlyn:

- y cynnydd a wnaed o ran y llwyddiannau allweddol;
- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;

- rheoli risgiau;
- y cynnydd a wnaed o ran y meysydd gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt, neu eu cryfhau.

Defnyddiwyd canlyniadau'r adolygiad i lywio cynnwys y datganiad hwn, a chafodd ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyn i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi.

Cynhaliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adolygiad o'r broses o sefydlu Comisiwn newydd y Cynulliad fel bwrdd llywodraethu'r sefydliad yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2016. Daeth i'r casgliad y sefydlwyd y Comisiwn yn unol ag egwyddorion llywodraethu priodol a Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth i'r casgliad hefyd fod y Comisiynwyr newydd yn cael hyfforddiant a sesiynau cynefino cymesur a phriodol er mwyn iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

Hefyd, cynhaliodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn a thrafodwyd yr adolygiad gan y Bwrdd mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2017. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y Bwrdd yn rhan ganolog o'r trefniadau llywodraethu ac yn darparu gwaith craffu cadarn o'r penderfyniadau ariannol allweddol mewn modd tryloyw. Amlygwyd nifer o feysydd i'w datblygu a chytunodd y Bwrdd ar gamau a fydd yn cael eu datblygu yn y flwyddyn i ddod er mwyn helpu gyda datblygiad parhaus y Bwrdd.

Meysydd i roi sylw iddynt a'u datblygu ar gyfer 2017-18

Mae maint y newid sy'n wynebu'r sefydliad yny dyfodol yn sylweddol. Mae cynlluniau uchelgeisiol y Comisiwn ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, newid digidol, Senedd leuenctid a diwygio etholiadol, goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ac agweddau eraill ar newid cyfansoddiadol ynghyd â Chynulliad bach sydd â llwyth gwaith mawr a chynyddol, yn golygu y bydd Comisiwn y Cynulliad yn wynebu pwysau mawr o ran adnoddau y flwyddyn nesaf. Felly, y prif bryder strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod yw ein gallu i barhau i sicrhau rhagoriaeth ym mhob maes yn wyneb y pwysau enfawr ychwanegol hyn.

Er bod sylw yn cael ei roi bob amser i'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, presenoldeb a pherfformiad, risg a chapasiti, bydd angen i reolwyr pob maes gwasanaeth ystyried y rhain yn rhagweithiol o ran cyflawni gweithgareddau 'busnes fel arfer' a chymryd rhan yn yr agenda ddiwygio.

Felly, bydd angen inni wneud y canlynol:

- nodi'r blaenoriaethau'n glir a sicrhau ymrwymiad yr holl arweinwyr i gyflawni'r rhain;
- cael cyswllt agos rhwng swyddogion y Comisiwn a'n harweinyddiaeth wleidyddol – yn enwedig y Llywydd, y Comisiwn a Chadeiryddion Pwyllgorau – er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y blaenoriaethau a'n gallu i'w cyflawni;
- parhau i roi sylw i integreiddio rhwng meysydd gwasanaeth a chydweithio er mwyn ein galluogi i gyflawni i'r safonau disgwylidig yn gyflym;
- cadw llygad parhaus ar y pwysau o ran capasiti;
- parhau i ganolbwyntio ar reoli ein risgiau allweddol mewn modd effeithiol ac amserol; a

- sicrhau cyffyrddiad ysgafn mewn biwrocratiaeth a gweinyddiaeth heb niweidio ein gafael ar lywodraethu.

Mae'r meysydd i roi sylw iddynt a'u datblygu ar gyfer 2017-18 yn cynnwys:

- cynigion i fynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad, diwygio etholiadol, rhagor o newid cyfansoddiadol a pharatoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- ffurfio cynigion y gyllideb ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn sy'n galluogi i flaenoriaethau'r Comisiwn gael eu cyflawni ac ennill cefnogaeth y Cynulliad ar gyfer y cynigion;
- rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amryw bryderon diogelwch sylweddol;
- adolygu'r defnydd a wneir o'r system ariannol NAV newydd a pha mor effeithiol ydyw;
- y prosiect i sicrhau adeilad at y dyfodol ar gyfer y Cynulliad, a fydd yn gofyn am ddatblygu a gweithredu trefniadau llywodraethu, rheoli a sicrwydd ffurfiol; a'r
- gwelliannau i gyfathrebu mewnol, gyda mwy o ymgysylltu yn ystod cyfnod o newid.

Byddwn yn paratoi cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wneir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Datganiad i gloi

I grynhoi, rwy'n hyderus bod gan y sefydliad safon uchel iawn o lywodraethu, gydag elfennau sy'n batrwm i eraill. Mae cryfder y sefyllfa hon yn arbennig o bwysig wrth inni wynebu rhai heriau mawr. Rwy'n fodlon bod y gwendidau a nodwyd drwy gyfrwng ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw neu yn y broses o gael sylw. Rwyf hefyd yn fodlon bod y systemau a'r prosesau o fewn ein fframwaith llywodraethu wedi cael eu gweithredu a'u datblygu'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017

- ▼ Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd plant o ysgolion lleol i'r Senedd i addurno ein coeden Nadolig, a dechrau ein dathliadau blynyddol.



Ein hatebolrwydd: Cydnabyddiaeth ariannol a'r staff



Adroddiad ar daliadau a staff

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth a gwybodaeth ariannol am ddeiliaid swyddi'r Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, sy'n gyfrifol am bennu Tâl a Lwfansau'r Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Dechreuodd yr ail Fwrdd, dan gadeiryddiaeth y Fonesig Dawn Primarolo, ar ei gyfnod o bum mlynedd ym mis Medi 2015.

Mae'r Cadeirydd yn cael cyfradd o £333 y dydd. Mae tri aelod y Bwrdd (y Fonesig Jane Roberts, Trevor Reaney a Michael Redhouse) yn cael £267 y dydd. Ymddiswyddodd Roger Williams o'r Bwrdd ar 5 Mai 2016, ac mae proses recriwtio ar y gweill i benodi rhywun yn ei le. Fel Bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun.

Mae'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, yn pennu mai cyflog sylfaenol Aelodau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 yw £64,000 (2015-16 - £54,391). Roedd gan y swyddi a ganlyn hawl i gyflogau ychwanegol:

	O 1 Ebrill 2016	O 1 Ebrill 2015
Y Llywydd	£41,000	£41,949
Y Dirprwy Lywydd	£21,000	£26,385
Comisiynwyr y Cynulliad	£13,000	£12,420
Cadeiryddion pwyllgorau ⁹	£13,000	£12,420
Cadeiryddion pwyllgorau eraill ¹⁰	£8,660	£8,280
Aelodau'r Pwyllgor Busnes	£8,660	Amh.

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

O fis Mai 2016, roedd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oedd ganddo swyddogaeth weithredol yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol a oedd wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,000, ynghyd â £1,000 ychwanegol am bob aelod o'r grŵp, hyd at uchafswm cyflog o £36,000. O ganlyniad, amrediad lwfans y deiliaid swyddi oedd £20,000 - £25,000.

O fis Mai 2016, cychwyn y Pumed Cynulliad, roedd grwpiau gwleidyddol yn penodi Aelodau'r Pwyllgor Busnes ac maent yn derbyn cyflog deiliaid swyddi ychwanegol o £8,660. Roedd hyn yn disodli'r trefniant blaenorol yn ystod 2015-16 lle'r oedd Rheolwyr Busnes yn cael lwfans deiliaid swyddi ychwanegol, a hynny wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £6,210, ynghyd â £250

⁹ Y Pwyllgorau oedd: Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Cyllid; a Chyfrifon Cyhoeddus.

¹⁰ Y Pwyllgorau eraill oedd: Deisebau a Safonau Ymddygiad.

ychwanegol am bob aelod o'r grŵp, hyd at uchafswm cyflog o £12,420. O ganlyniad, amrediad lwfans y deiliaid swyddi yn ystod 2015-16 oedd £7,460 - £12,420.

O'r Aelodau a oedd â hawl i gyflogau ychwanegol yn 2016-17, nid oedd yr un yn gallu gwrthod ei gyflog (yn 2015-16 roedd un Aelod wedi peidio â hawlio ei gyflog yn llawn am y flwyddyn).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad www.cynulliad.cymru.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

Yn ei adolygiad o'r pecyn cydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad, adolygodd y Bwrdd y cyflog sylfaenol a nododd nad oedd y cynnydd sylweddol yng nghyfrifoldebau'r Aelodau cyffredin wedi'i adlewyrchu yn y Penderfyniad blaenorol. Yn ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai'r cyflog sylfaenol fod yn £64,000 o fis Mai 2016 ymlaen. Mae wedi pennu lefel y cyflogau i adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfrifoldebau'r Aelodau, ac mae wedi cynyddu'r cyflogau a delir i ddeiliaid swyddi yn y ddeddfwrfa ar yr un raddfa â'r rhai yn y Llywodraeth. Mae'r newidiadau y mae'r Bwrdd hefyd wedi'u gwneud i gynllun pensiwn yr Aelodau wedi lleihau amrediad a maint y budd-daliadau y mae'r cynllun yn eu darparu a'r gost i drethdalwyr, a bydd gofyn i'r Aelodau dalu mwy. At ei gilydd, mae cyfanswm cost y cyflogau ychwanegol a delir i ddeiliaid swyddi yn is.

Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar Aelod Cynulliad arall a benodir gan y Cynulliad.

Y Comisiynwyr yn ystod 2016-17 oedd:

Elin Jones AC Etholwyd ar 11 Mai 2016	Bu Elin Jones yn bresennol ym mhob un o naw cyfarfod y Comisiwn
Suzy Davies AC Penodwyd ar 8 Mehefin 2016	Bu Suzy Davies yn bresennol ym mhob un o naw cyfarfod y Comisiwn
Joyce Watson AC Penodwyd ar 8 Mehefin 2016	Bu Joyce Watson yn bresennol yn wyth o naw cyfarfod y Comisiwn
Dai Lloyd AC Penodwyd ar 8 Mehefin 2016 Ymddiswyddodd ar 21 Medi 2016	Bu Dai Lloyd yn bresennol ym mhedwar o naw cyfarfod y Comisiwn
Adam Price AC Penodwyd ar 21 Medi 2016	Bu Adam Price yn bresennol ym mhump o naw cyfarfod y Comisiwn
Caroline Jones AC Penodwyd ar 8 Mehefin 2016	Bu Caroline Jones yn bresennol ym mhob un o naw cyfarfod y Comisiwn

Y Comisiynwyr yn ystod 2015-16 oedd:	Tymor y Swydd
Y Fonesig Rosemary Butler AC	Etholwyd ar 11 Mai 2011 Daeth ei thymor i ben ar 11 Mai 2016
Angela Burns AC	Penodwyd ar 25 Mai 2011 Daeth ei thymor i ben ar 8 Mehefin 2016
Peter Black AC	Ailbenodwyd ar 25 Mai 2011 Daeth ei dymor i ben ar 8 Mehefin 2016
Sandy Mewies AC	Penodwyd ar 25 Mai 2011 Daeth ei dymor i ben ar 8 Mehefin 2016
Rhodri Glyn Thomas AC	Penodwyd ar 25 Mai 2011 Daeth ei dymor i ben ar 8 Mehefin 2016

Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldebau eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad sy'n eu hatal rhag bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Comisiwn o bryd i'w gilydd. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.

Cytunodd y Comisiwn ar drefniadau portffolio gyda'r Comisiynwyr a oedd yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros faterion penodol (gweler tudalennau 10 i 11).

Roedd gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl i gyflog blynyddol o £13,000 yn ychwanegol at eu cyflog fel Aelodau'r Cynulliad. Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u cydnabyddiaeth ariannol oedd yn berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol mewn ffigurau sengl

Enw a theitl	Cyflog 2016–17	Cyflog 2015–16	Budd- daliadau Pensiwn 2016- 17 ¹¹	Budd- daliadau Pensiwn 2015-16	Cyfanswm 2016-17	Cyfanswm 2015-16
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rosemary Butler AC – Y Llywydd (daeth ei gwasanaeth i ben ar 11/5/16)	05-10	95-100	2	44	05-10	135-140
David Melding AC – Y Dirprwy Lywydd (daeth ei wasanaeth i ben ar 5/4/2016)	0-2.5	80-85	0	37	0-2.5	115-120
Elin Jones AC – Y Llywydd (etholwyd 11/5/16)	90-95	-	102	-	195-200	-
Ann Jones AC - Y Dirprwy Lywydd (etholwyd 11/5/16)	75-80	-	94	-	165-170	-

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio.

¹¹ Caiff gwerth y budd-daliadau pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi gan 20) namyn (cyfraniadau'r unigolyn).

Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y budd-daliadau pensiwn i'r 1000 agosaf).

Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd – budd-daliadau pensiwn

Enw a theitl	Gwir gynnydd mewn pensiwn ¹²	Cyfanswm y pensiwn cronedig ¹³	CETV ar 31/3/17	CETV ar 31/3/16	Gwir gynnydd mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rosemary Butler AC – Y Llywydd (daeth ei gwasanaeth i ben ar 11/05/16)	0-2.5	30-35	482	480	1
David Melding AC – y Dirprwy Lywydd (daeth ei wasanaeth i ben ar 05/04/16)	0-2.5	25-30	321	321	1
Elin Jones AC – Y Llywydd (etholwyd ar 11/05/16)	5-7.5	30-35	391	319	53
Ann Jones AC – y Dirprwy Lywydd (etholwyd ar 11/05/16)	2.5-5	30-35	520	414	80

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio.


Mae'r rhifau a ddatgelir ar gyfer y Llywydd presennol a'r Dirprwy Lywydd presennol yn adlewyrchu'r dyddiad iddynt gychwyn ar eu swyddi. Mae'r rhifau ar gyfer y deiliaid swyddi blaenorol yn adlewyrchu'r dyddiad iddynt roi'r gorau i'w swyddi.

Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr y Comisiwn yw Clerc y Cynulliad (a benodwyd o dan Adran 26 o Ddeddf 2006). Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Penodir ei staff o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau bod y Cynulliad yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno i ymgymryd â'i rwymedigaethau statudol. Mae hyn yn sicrhau y gall y Cynulliad a'i bwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

¹² Gwir gynnydd mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.

¹³ Cyfanswm y pensiwn cronedig ar adeg oed pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2017 ar gyfer deiliaid swyddi presennol ac ar y dyddiad y rhoddwyd y gorau i'r swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.



Cynghorwyr annibynnol ac aelodau'r Pwyllgorau

Penododd Comisiwn y Cynulliad gynghorwyr annibynnol i sicrhau bod y Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.

Mae'r cynghorwyr yn ymwneud â nifer o weithgareddau a meysydd gwasanaeth y Cynulliad. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Comisiwn; yn ystyried ein trefniadau rheoli perfformiad a threfniadau adrodd; yn cynghori ar gyfrifoldebau'r Comisiwn ar gyfer arfarnu staff a'r polisïau a systemau talu ac yn cynnal trosolwg beirniadol o reolaeth ariannol y Comisiwn a'i weithdrefnau rheoli risg.



Keith Baldwin

Treuliodd Keith 20 mlynedd yn bartner yn PricewaterhouseCoopers (PWC). Ar wahân i'w gyfrifoldebau dros gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, daliodd hefyd nifer o swyddi rheoli gan gynnwys Dirprwy Bartner yn gyfrifol am ymgynghori â'r Llywodraeth a Phartner yn gyfrifol am y swyddogaethau rheoli risg ac ansawdd ym musnes cynghori PWC.

Ers gadael PWC mae wedi cyflawni nifer o swyddi anweithredol ac ymgynghorol, gan gynnwys aelod Bwrdd anweithredol ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio yn CVQO Cyf. (sy'n helpu pobl ifanc i ennill cymwysterau galwedigaethol). Mae'n Aelod o'r Cyngor ac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin, er 2010. Bu'n gyfarwyddwr anweithredol y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (y Coleg Barnwrol erbyn hyn) rhwng 2007 a 2011, ac mae wedi cyflawni nifer o swyddi fel aelod pwyllgor ac fel Cynghorydd Arbennig i'r Bwrdd ym Mwrdd Safonau'r Bar (sef rheoleiddiwr bargyfreithwyr) er mis Ionawr 2013.



Mair Barnes

Mae Mair Barnes yn cynghori ac yn mentora nifer o gyfarwyddwyr Byrddau ar draws amrywiaeth o sectorau yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar fusnes byd-eang.

Mae'n gyn Gadeirydd Vantios ccc a chyn reolwr gyfarwyddwr Woolworths ccc. Mae wedi dal swyddi cyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.



Helena Feltham

Mae Helena wedi cael gyrfa hir ym maes Manwerthu ac Arweiniad ym maes Adnoddau Dynol. Hi yw Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol B&Q ac yn y gorffennol bu'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol i TOPSHOP TOPMAN a chyn hynny'n bu'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Marks & Spencer, Jack Wills Cyf a Woolworths De Affrica. Mae hefyd wedi treulio cyfnod gyda Odgers Berndtson, y cwmni sy'n ymwneud â phenodiadau uwchswyddogion gweithredol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae Helena wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol ar Ymddiriedolaeth y GIG, ac ar hyn o bryd mae'n Ynad Heddwch ac yn Aelod o Fwrdd yr Elusen Gweithredu dros Blant a'r Ymddiriedolaeth Manwerthu.



Eric Gregory

Eric yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae hefyd yn aelod o Banel yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, yn Gynghorwr Annibynnol a Chadeirydd Pwyllgor Risg a Sicrwydd Swyddfa Pasbortau Ei Mawrhydi, yn gyfarwyddwr anweithredol ar gyfer Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn Llywodraethwr y Sefydliad Iechyd.

Bu'n gweithio i Bartneriaeth John Lewis am 25 mlynedd tan 2009, lle roedd yn Gyfarwyddwr Bwrdd am saith mlynedd, gan ddal y tair prif swydd cyfarwyddwr TG cyn dod yn Gyfarwyddwr Personél John Lewis. Cyn hynny roedd yn gyfarwyddwr anweithredol ar gyfer rhaglenni Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet ac ar gyfer Gwasanaeth Erllyn y Goron lle'r oedd hefyd yn aelod o'r Bwrdd TGCh. Mae hefyd wedi dal swydd Cadeirydd Bwrdd TG y Fforwm Nwyddau Defnyddwyr, a bu'n aelod o Fwrdd Busnesau e-sgiliau am chwe mlynedd.



Hugh Widdis

Hugh yw Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon a Chyfreithiwr Adrannol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae ganddo dros 15 mlynedd o brofiad o weithio yng ngwasanaeth seneddol a chyfreithiol y llywodraeth. Cyn ymuno â'r Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae wedi gweithio ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol gyda chwmni amlwg ym maes darparu gwasanaethau ariannol. Mae wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban hefyd, ac ym maes cyfraith wahaniaethu yn Swyddfa Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Iwerddon.

Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac mae'n aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Ceir pedwar cynghorydd annibynnol ac un aelod pwyllgor annibynnol. Maent yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, £7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a £6,250 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau.

Cynghorwyr Annibynnol

- **Mair Barnes** (Tachwedd 2007 - Hydref 2016)
- **Eric Gregory** (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Bu Eric Gregory yn bresennol ym mhob un o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn bresennol hefyd yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Taliadau
- **Helena Feltham** (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Bu Helena Feltham yn bresennol yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Taliadau
- **Keith Baldwin** (Tachwedd 2012 – Hydref 2018) Bu Keith Baldwin yn bresennol ym mhob un o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn bresennol hefyd yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Taliadau

Nid yw'r cynghorwyr annibynnol yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn. Maent yn mynd i'r cyfarfodydd hynny sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol hwy.

Aelod

- **Hugh Widdis** (Tachwedd 2013 – Hydref 2019) Bu Hugh Widdis yn bresennol ym mhob un o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Y Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau sy'n cynnwys o leiaf dri aelod sy'n annibynnol ar Gomisiwn y Cynulliad a'i staff, ac nad oes ganddynt fuddiannau personol neu fusnes sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor. Rhaid i un neu ddau ohonynt fod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Taliadau yn sicrhau bod y Comisiwn yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ei bolisiau a'i systemau arfarnu a thalu.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 oedd:

- **Helena Feltham**, Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (o fis Ebrill 2014) a Chynghorwr Annibynnol.
- **Keith Baldwin**, Cynghorwr Annibynnol
- **Eric Gregory**, Cynghorwr Annibynnol

Yn ystod y cyfnod, cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith, ar 25 Mai 2016 ac ar 20 Mawrth 2017.

Uwch-aelodau o staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhestr o uwch-aelodau staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae'r cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Enw	Teitl
Claire Clancy hyd at 23 Ebrill 2017	Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad <i>Bu Claire Clancy yn bresennol ym mhob un o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, pob un o naw cyfarfod y Comisiwn, a phob un o'r ddau gyfarfod y Pwyllgor Taliadau.</i>
Manon Antoniazzi o 24 Ebrill 2017	Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Adrian Crompton	Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Dave Tosh	Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad <i>Bu Dave Tosh yn bresennol ym mhump o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg</i>
Elisabeth Jones	Prif Gynghorydd Cyfreithiol
Craig Stephenson	Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn
Nicola Callow hyd at 21 Ebrill 2016	Cyfarwyddwr Cyllid

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn mynd i gyfarfodydd perthnasol sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol hwy. Oni nodir yn wahanol, mae'r cyfarwyddwyr yn cael eu penodi am gyfnodau penagored.

Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol mewn ffigurau sengl

Enw	Cyflog (£'000)		Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) ¹⁴		Cyfanswm (£'000)	
	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16
Claire Clancy	150-155	145-150	31	59	180-185	205-210
Adrian Crompton	120-125	120-125	48	56	170-175	175-180
Dave Tosh	105-110	105-110	42	49	145-150	150-155
Elisabeth Jones	80-85	95-100	25	36	105-110	130-135
Nicola Callow	0-5	65-70	2	43	5-10	110-115
Craig Stephenson	85-90	80-85	50	61	135-140	145-150

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros, goramser, lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Gadawodd Nicola Callow Gomisiwn y Cynulliad ar 21 Ebrill 2016 o dan delerau y cytunwyd arnynt, ac mae'r gost o £70,000 wedi'i hadlewyrchu yng nghyfrifon 2015-16 ac wedi'i thalu yn 2016-17.

Lleihaodd Elisabeth Jones ei horiau i 26 awr yr wythnos a ddaeth i rym ar 1 Medi 2016.

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio.

¹⁴Mae gwerth y budd-daliadau pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Cyflogau staff y Comisiwn

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y berthynas rhwng y pwynt canol ym mand cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 a chydnabyddiaeth ariannol canolrifol staff y Comisiwn. Mae cyflogau yn cyfeirio at daliadau blynyddol, cyfwerth ag amser llawn, yr holl staff (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro), ar 31 Mawrth 2017. Nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Blwydd-daliad y Cyflogwr. Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2016-17 nac yn 2015-16.

	2016-17 Cyflog £	2015-16 Cyflog £
Band y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf	150,000-155,000	145,000-150,000
Cyfanswm tâl canolrifol	31,341	31,031
Cymhareb	4.87	4.75

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio.

Band cyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2017 oedd £150,000 i £155,000 (£145,000-£150,000 yn 2015-16). Roedd hyn yn 4.87 gwaith (4.75 yn 2015-16) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, a oedd yn £31,341 (£31,031 yn 2015-16).

Yn 2016–17, ac yn 2015-16, nid oedd unrhyw daliad yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau'n amrywio o £16,000, lefel a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £152,000 (£17,000 i £150,000 yn 2015-16).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

Pensiynau

Uwch-reolwyr – budd-daliadau pensiwn

Enw a theitl	Gwir gynnydd mewn pensiwn ¹⁵	Cyfanswm y pensiwn cronedig ¹⁶	CETV ar 31 Mawrth 2017	CETV ar 31 Mawrth 2016	Gwir gynnydd mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad					
Claire Clancy	0-2.5 a chyfandaliad o 5-7.5	70-75 a chyfandaliad o 215-220	1,667	1,564	31
Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad					
Adrian Crompton	2.5-5 a chyfandaliad o 0- 2.5	45-50 a chyfandaliad o 115-120	811	751	23
Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad					
Dave Tosh	2.5-5.0	35-40	488	441	24
Prif Gyngorydd Cyfreithiol					
Elisabeth Jones	0-2.5	35-40	685	624	23
Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn					
Craig Stephenson	0-2.5 a chyfandaliad o 5- 7.5	35-40 a chyfandaliad o 105-110	764	690	42
Cyfarwyddwr Cyllid					
Nicola Callow¹⁷	0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5	15-20 a chyfandaliad o 40-45	262	260	2

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir budd-daliadau pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun *alpha*. O dan y cynllun hwnnw, darparerir budd-daliadau ar sail

¹⁵ Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn

¹⁶ Cyfanswm y pensiwn cronedig ar adeg oed pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2017 ar gyfer deiliaid swyddi presennol ac ar y dyddiad y rhoddwyd y gorau i'r swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.

¹⁷ Tan 21 Ebrill 2016.

enillion gyrfa cyfartalog, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system bensiwn y wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun *alpha*. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol yr aelod (*classic*, *premium* neu *classic plus*), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu budd-daliadau ar sail gyrfa gyfan yr aelod (*nuvos*), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu, a chaiff costau'r budd-daliadau eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau *classic*, *premium*, *classic plus*, *nuvos* ac *alpha* yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun *alpha* rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd budd-daliadau PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun *alpha* yn cael eu bancio. O ran y rhai a gronnodd fudd-daliadau'n gynharach fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu budd-daliadau ar sail cyflog terfynol, bydd y budd-daliadau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun *alpha*. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn PCSPS neu'r cynllun *alpha*, fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fudd-daliadau PCSPS a budd-daliadau *alpha*, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fudd-daliadau yn y ddau gynllun.)

Gall yr aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd-daliadau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog. Maent yn amrywio, a hynny rhwng 3 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o'r cynllun *classic* (ac aelodau o'r cynllun *alpha* a oedd yn aelodau o'r cynllun *classic* yn union cyn ymuno â'r cynllun *alpha*), a rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant ar gyfer aelodau o'r cynllun *premium*, y cynllun *classic plus*, a'r cynllun *nuvos*, a phob aelod arall o'r cynllun *alpha*. Mae budd-daliadau yn y cynllun *classic* yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae budd-daliadau yn y cynllun *premium* yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun *classic*, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun *classic plus* gyda'r budd-daliadau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun *classic*, a'r budd-daliadau am wasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun *premium*. Yng nghynllun *nuvos*, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae budd-daliadau'r cynllun *alpha* yn cael eu cronni mewn ffordd debyg i'r cynllun *nuvos*, heblaw'r ffaith mai'r gyfradd gronni yw 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn *Neddf Cyllid 2004*.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant ac 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai gan banel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5

y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau'r cynlluniau *classic*, *premium* a *classic plus* yw 60, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun *nuvos*. O ran aelodau'r cynllun *alpha*, eu hoedran pensiwn yw naill ai 65 neu eu hoedran pensiwn o dan gynllun pensiwn y wladwriaeth – pa un bynnag sy'n uwch. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer uwch-aelodau o staff yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn y PCSPS neu'r cynllun *alpha* – fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fudd-daliadau yn y PCSPS a'r cynllun *alpha*, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fudd-daliadau yn y ddau gynllun, ond nodir y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar wahanol oedranau).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan a ganlyn:

www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y CETV yw gwerth cyfalafol y budd-daliadau a gronnwyd gan aelod o'r cynllun pensiwn ar adeg benodol, yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r budd-daliadau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddo brynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn budd-daliadau o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Gellir gweld manylion y rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn Nodyn 2 D (ar dudalen 134).

Nifer y staff

Nifer y staff fesul categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Nifer **cyfartalog** y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) oedd:

	2016-17	2015-16
Staff a gyflogwyd	415.49	402.27
Staff ar secondiad	3.48	4.00
Staff dros dro/achlysurol	22.16	22.05
Cyfanswm	441.13	428.32

Ar **ddiwedd** y flwyddyn ariannol, nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn oedd:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Staff a gyflogwyd	417.69	413.29
Staff ar secondiad	4.95	2.00
Asiantaeth	25.34	18.98
Cyfanswm	447.98	434.27

Cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd a band*

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Menywod		
Cyfarwyddwyr	2	3
Staff	231	231
Cyfanswm Menywod	233	234
Dynion		
Cyfarwyddwyr	3	3
Staff	230	213
Cyfanswm Dynion	233	216
Cyfanswm	466	450

*Yn y tablau uchod caiff staff a gyflogir eu nodi fel rhifau cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn ôl rhywedd yn cael ei nodi fel niferoedd gwirioneddol.

Ni chynhwysir y cynghorwyr annibynnol yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn nac yn y manylion am rywedd uchod.

Data am absenoldeb oherwydd salwch

Y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 3.54 y cant (3.68 y cant yn 2015-16), neu 7.78 (8.09 yn 2015-16) o ddiwrnodau gwaith ar gyfartaledd y person. Rydym yn cadw llygad strategol ar reoli absenoldeb ac yn rhoi cefnogaeth yn achos absenoldeb drwy'r rheolwyr llinell, Adnoddau Dynol, ac Iechyd Galwedigaethol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar iechyd meddwl, a cheir gwybodaeth am hynny yn yr adran **Defnyddio adnoddau'n ddoeth yn Ein perfformiad: dadansoddiad**.

Teithio a chynhaliaeth

Gellir gweld yr hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn Nodyn 15 ar dudalen 143.

Anabledd

Mae mesurau ar waith gennym i gefnogi gweithwyr sydd ag anabledd. Mae ein Polisi Llenwi Swyddi Gwag yn cynnwys sicrwydd o gyfweiliad ar gyfer ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion y swydd, ac mae hynny hefyd yn berthnasol i weithwyr mewnol sy'n gwneud cais am ddyrchafiad.

Yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr, gwneir addasiadau rhesymol, lle bynnag y bo modd, ar gyfer gweithwyr mewn swydd neu weithwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl anaf neu ar ôl datblygu afiechyd a allai effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr adran **Defnyddio adnoddau yn ddoeth** ar y dudalen 56 – 57.

Iechyd, diogelwch a llesiant

Gellir dod o hyd i wybodaeth am iechyd, diogelwch a llesiant yn yr **adran Defnyddio adnoddau yn ddoeth** ar y dudalen 54 – 55.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017



- ▼ Bu cynghreiriaid LHDT ac aelodau 'OUT-NAW', Rhwydwaith LHDT Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhan o orymdaith flynyddol Pride Cymru drwy Gaerdydd.



Ein hatebolrwydd: Atebolrwydd ac archwilio



b) Gofyniad arian parod net 2016-17

				2016-17	2015-16
				£'000	£'000
				Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwarian t)	
	Nodyn	Y gyllideb	Alldro		Alldro
Gofyniad arian parod net	SOS 03	52,038	51,962	76	46,255

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad o Berfformiad.

c) Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Mae'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys llog banc sy'n dderbyniadwy ac incwm dros ben y swm a awdurdodwyd.

Yn 2016-17 nid oedd unrhyw incwm dros ben na llog banc yn dderbyniadwy. (£0 2015-16).

Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau

(Datganiad am gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

SOS 01 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2016-17

	Alldro £'000	Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb £'000	Alldro 2015-16 £'000
<i>Gwariant refeniw</i>				
Cyflogau'r staff a'r costau cysylltiedig	19,821	20,391	570	18,653
Costau adeiladau a chyfleusterau	9,751	7,514	(2,237)	8,833
Costau TGCh	2,920	2,614	(306)	2,559
Costau eraill	1,496	2,133	637	1,652
Costau hyfforddi a datblygu	321	385	64	273
Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth	239	324	85	296
Costau teithio a chynhaliaeth staff	160	156	(4)	163
Costau eraill Adnoddau Dynol	165	103	(62)	740
Costau etholiad	2,491	2,500	9	427
Ffioedd dibrisiant ac amorteiddiad	2,614	3,000	386	3,340
Gwariant refeniw gros	39,978	39,120	(858)	36,936
<i>Incwm refeniw</i>				
Gwerthiant – Siop y Cynulliad	(26)	(15)	11	(15)
Incwm rhentu adeiladau	(35)	(50)	(15)	(79)
Incwm amrywiol	(102)	(335)	(233)	(96)
Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso	(163)	(400)	(237)	(190)
GWARIANT REFENIW NET	39,815	38,720	(1,095)	36,746
GWARIANT CYFALAF	636	250	(386)	536
(Creu asedau sefydlog)				
ALLDRO ADNODDAU NET (Gwariant y Comisiwn)	40,451	38,970	(1,481)	37,282
Cyflogau'r Aelodau, lwfansau a chostau cysylltiedig	13,763	15,468	1,705	13,453
ALLDRO ADNODDAU	54,214	54,438	224	50,735
Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau	1,078	1,500	422	1,495
CYFANSWM ALLDRO ADNODDAU NET	55,292	55,938	646	52,230

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net – nodiadau

Yr alldro adnoddau net, cyn y costau cyllid pensiynau, ar gyfer 2016-17 oedd £54.2 miliwn o'i gymharu â chyllideb o £54.4 miliwn, gan arwain at danwariant o £0.2 miliwn (0.4 y cant).

Ein nod oedd darparu'r tanwariant alldro diwedd blwyddyn o fewn 0.5 y cant o gyfanswm y gyllideb a sicrhau arbedion gwerth am arian o £500,000 fel rhan o ddull rhagweithiol ac effeithiol o reoli'r gyllideb. Llwyddwyd i sicrhau arbedion Gwerth am Arian o £537,600 yn ystod 2016-17.

Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at reolaeth agos o'r fath ar y cyllid yw'r defnydd o flaengynlluniau gwaith ar gyfer gwasanaethau sydd â dyraniadau mawr o'r gyllideb - yn bennaf Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a TGCh. Mae gan y ddau wasanaeth gylch gwaith mawr ac ymrwymadau cyllidebol parhaus a helaeth. Trwy weithio gyda'r gwasanaethau hyn i flaenoriaethu eu cynlluniau, llwyddwyd i reoli gwariant yn hyblyg fel y gellid defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf priodol.

Yn sgil yr ymarfer cynllunio capasiti, a gynhaliwyd i asesu'r adnoddau staff presennol o'i gymharu â'r pwysau gwaith presennol ac yn y dyfodol, canfuwyd bod angen buddsoddi ymhellach yng ngweithlu'r Comisiwn. Cymeradwywyd amryw swyddi newydd parhaol a dros dro yn ystod y flwyddyn i gefnogi gwaith y Comisiwn. Caiff effaith ariannol y rhain ei gwireddu fwyfwy yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn sgîl y cynnydd yn rolau a chyfrifoldebau'r Comisiwn yn y Pumed Cynulliad.

Yn ystod 2016-17, nodwyd meysydd buddsoddi newydd, arwyddocaol, mewn ymateb i ddatblygiadau a ddigwyddodd ar ôl cytuno ar y gyllideb ar gyfer 2016-17. Roedd y gofynion ychwanegol hyn yn cynnwys adnewyddu'r llawr gwaelod yn Nhŷ Hywel, i gynnwys ystafelloedd pwyllgora newydd, a manau aros newydd i dystion i hwyluso pethau o ran rhagor o bwyllgorau'r Cynulliad, rhagor o drefniadau diogelwch mewn swyddfeydd etholaeth a gwelliant o ran gwytnwch ynni yn y Senedd. Roedd modd ariannu'r gofynion blaenllaw hyn drwy adleoli adnoddau nad oedd wedi'u defnyddio o gyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau a'r gyllideb staffio, yn hytrach na gorfod gofyn am Gyllideb Atodol. Yr amrywiad ar y llinellau gwariant cyllidebol hyn oedd £1.7 miliwn a £0.57 miliwn yn ôl eu trefn


Yn sgîl etholiadau'r Cynulliad ar 5 Mai 2016, roedd yn rhaid talu costau a oedd yn ymwneud â hawliadau adsefydlu Aelodau Cynulliad, diswyddiadau staff cymorth yr Aelodau Cynulliad hynny na chafodd eu haillethol, a chostau cysylltiedig eraill. Caiff hyn ei ddangos fel costau etholiad, ac mae'n gyfanswm o £2.49 miliwn. Cafodd y symiau a dalwyd fel hawliadau adsefydlu eu cyfrifo yn unol â Phenderfyniad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Bwrdd Taliadau yw'r bwrdd annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

SOS 02. Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

	Nodyn	2016-17 £000	2015-16 £'000
Alldro adnoddau net	SOS 01	55,292	52,230
Gwariant cyfalaf	4	(636)	(536)
Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru		707	682
Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	SOS 05	-	-
Gwariant gweithredu net		55,363	52,376

Mae'r tabl hwn yn destun archwilio

Mae'r taliadau uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £706,670 (£682,045 ar gyfer 2015–16) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.



Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad am Gyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir yn yr adroddiad hwnnw iddi gael ei harchwilio.

Cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* a chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio a rhoi adroddiad arnynt, ynghyd â'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn cydymffurfio â'r Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Cwmpas archwilio'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu digon o dystiolaeth am y symiau a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, pa un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Comisiwn a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rhaid imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol rhag ofn bod anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson â hi. Os byddaf yn gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy nhystysgrif a'm hadroddiad.

Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar 31 Mawrth 2017, a'r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a'r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i gael ei harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Mawrhydi a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*; ac
- mae'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi;
- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi am daliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017

- ▼ Bu Elin Jones AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhan o drafodaeth yn y Senedd â John Bercow AS, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin.



Ein datganiadau ariannol



Datganiad o wariant net cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

	Nodyn	2016–17 £'000	2015–16 £'000
Incwm o weithrediadau			
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau	SOS 05	163	190
Cyfanswm yr incwm gweithredu		163	190
Costau cyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff	2a	27,069	24,716
Costau eraill yr Aelodau	2b	8,696	8,149
Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau	2a a 9	1,078	1,495
Taliadau amhariad a dibrisiant	3	2,614	3,340
Costau gweinyddol eraill	3	16,069	14,866
Cyfanswm y gwariant gweithredu		55,526	52,566
Gwariant gweithredu net		55,363	52,376
Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth		55,363	52,376
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na chaiff eu hailddosbarthu i'r costau gweithredu net:			
- (Enillion)/colledion net ar ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	4	(3,147)	-
- (Enillion)/colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	2a a 9	5,982	(1,959)
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		58,198	50,417

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na colledion heblaw'r rhai a gynhwysir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Datganiad am y sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2017

	Nodyn	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	4	64,536	63,210
Asedau annirweddol	5	106	263
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		64,642	63,473
Asedau cyfredol			
Stoc		23	27
Symiau masnachol a symiau i'w derbyn	6	1,765	1,590
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	7	74	236
Cyfanswm yr asedau cyfredol		1,862	1,853
Cyfanswm yr asedau		66,504	65,326
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnachol a symiau taladwy eraill	8	(4,888)	(5,338)
Darpariaethau	9	0	(23)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(4,888)	(5,361)
Asedau anghyfredol ynghyd â rhwymedigaethau cyfredol net		61,616	59,965
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	9	(15,863)	(8,683)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(15,863)	(8,683)
Asedau heb gynnwys rhwymedigaethau		45,753	51,282
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill			
Y gronfa gyffredinol		45,874	47,490
Y gronfa bensiw wrth gefn		(15,743)	(8,683)
Y gronfa ailbriso wrth gefn		15,622	12,475
Cyfanswm ecwiti		45,753	51,282

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2017

Datganiad am y llif arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

	Nodyn	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Costau gweithredu net	SOS 02	(55,363)	(52,376)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:			
Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad	4 a 5	2,614	3,340
Gwaredu	4	-	-
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc		4	(4)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn	6	(175)	18
<i>Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth</i>	9	120	(39)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill	8	(450)	1,326
<i>(Gostyngiad)/Cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt ar y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net</i>		162	(117)
Defnyddio darpariaeth	9	(23)	(44)
Costau cyllid pensynau	9	1,078	1,495
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(52,033)	(46,401)
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	4	(636)	(536)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(636)	(536)
Llif arian net o weithgareddau ariannu			
O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad)		52,036	46,491
O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol)		707	682
Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		(236)	(119)
Mewnlif arian net o weithgareddau ariannu		52,507	47,054
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	SOS 03	(162)	117
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	7	236	119
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	7	74	236

Datganiad am y newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

	Nodyn	Y Gronfa gyffredinol	Y Gronfa ailbriso wrth gefn	Y Gronfa benswiwn wrth gefn	Ecwiti trethdalwyr
		£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31 Mawrth 2015		51,434	12,475	(9,147)	54,762
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(52,376)	-	1,959	(50,417)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn		1,495	-	(1,495)	-
Cronfa Gyfunol Cymru					
– Cyflenwad (awdurdodwyd)		46,500	-	-	46,500
– Cyflenwad (heb ei ddefnyddio)		(9)	-	-	(9)
– Taliadau uniongyrchol		682	-	-	682
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru					
– Cyflenwad		(236)	-	-	(236)
Balans ar 31 Mawrth 2016		47,490	12,475	(8,683)	51,282
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(55,363)	3,147	(5,982)	(58,198)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	9	1,078	-	(1,078)	-
Cronfa Gyfunol Cymru					
– Cyflenwad (awdurdodwyd)	SOS 3	52,038	-	-	52,038
– Cyflenwad (heb ei ddefnyddio)	SOS 3	(2)	-	-	(2)
– Taliadau uniongyrchol		707	-	-	707
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru					
– Cyflenwad		(74)	-	-	(74)
Balans ar 31 Mawrth 2017		45,874	15,622	(15,743)	45,753

- ▼ Yn 2016, perfformiodd Ysgol Dolau yn y Senedd yn ein noson garolau flynyddol.



Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon



01. Datganiad ar y polisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2016-17 (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisiau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisiau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2016-17 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar Ddatganiadau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased ddiriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrasio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

Dibrisio asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a'i chynnwys mewn adolygiadau ailbrasio ac amhariad dilynol.

Asedau annirweddol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog annirweddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (tair neu bum mlynedd).

Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth cyfredol pan gânt eu rhoi ac fel arfer cânt eu hailbriso yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gredu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

Ased	Oes ased
Tir ac adeiladau:	50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS)
Offer sefydlog:	10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei briso
Cyfarpar TGCh, clyweledol a darlledu:	rhwng pedair a chwe blynedd
Seilwaith TGCh:	10 mlynedd
Asedau annirweddol (meddalwedd):	rhwng tair a phum mlynedd
Cerbydau modur:	pedair blynedd
Asedau a gafwyd yn rhodd:	yn cael eu hasesu ar ôl iddynt ddod i law

Elfen o ddibrisiant a wireddwyd o'r gronfa ailbriso

Mae dibrisiant yn cael ei godi ar swm yr asedau wedi iddynt gael eu hailbriso. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law, felly, oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbriso Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, pan waredir yr ased.

Cydrannau asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol.

Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau. Caiff asedau eu 'grwpio' yn TGCh; cyfarpar clyweledol a darlledu; seilwaith TGCh, ac asedau annirweddol. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod oes pob un.

Datganiad o wariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn seiliedig ar y gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau am dreuliau neu gostau a achoswyd ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r amryfal derfynau ar dreuliau a chostau a bennir yn y Penderfyniad.

Stociau

Mae stociau, gan gynnwys nwyddau a gedwir i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn cael eu datgan ar y cost a'r gwerth net isaf y gellir ei gael amdanynt.

Cyfnewid arian tramor

Mae trafodion sydd wedi'u priso mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n ddilys ar ddyddiad pob trafodiad. Mae imprestion arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n ddilys ar ddyddiad pob proses ariannu.

Pensiynau

Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff ar secondiad i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd y Cynllun fel yr oedd ar ddiwedd mis Mawrth 2012 ar 17 Gorffennaf 2014. Mae symiau sy'n daladwy i'r Cynllun yn cael eu nodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (<http://www.civilservice.org.uk/about-us/resource-accounts/>).

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, ac mae'n gymwys i gyflog Aelodau a chyflog unrhyw ddeiliaid swyddi. Telir am gost pensiynau a ddarperir i'r Aelodau drwy gyfrwng ffioedd a gyfrifwyd ar sail cronedig, gyda rhwymedigaeth i dalu buddion y dyfodol yn cael ei godi ar gyfrifon cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Byddai unrhyw rwymedigaethau yn y gronfa sy'n deillio o ddiffyg yn yr asedau yn cael eu bodloni ar hyn o bryd drwy gynyddu'r arian a delir gan y Comisiwn. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19 (IAS 19). Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r AMPS yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, **ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Cynulliad.**

Cost les weithredol

Mae taliadau rhent sy'n daladwy o dan les weithredol yn cael eu nodi ar y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddynt.

Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei ystyried yn Gorff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* ac felly at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso'r Ddeddf i'r Goron) caiff ei drin fel adran o'r llywodraeth, a gall fod modd adennill TAW ar nwyddau a gwasanaethau a ddarperir i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn talu TAW ar y gyfradd safonol ar ei weithgareddau masnachu, fel siop y Cynulliad.

Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a'r balansau cyfredol yn y banc a Citibank, y mae modd eu newid ar fyr rybudd yn swm penodol o arian ac sydd â braidd ddim risg o ran y newid yn eu gwerth.

Buddion cyflogeion

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

Cyflwyno adroddiadau

Rydym wedi adolygu ein hadroddiadau rheoli ac rydym yn fodlon nad oes gennym, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliadau ychwanegol i'w gwneud.

Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisiâu cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

- Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraid yn nodyn 02.A ac yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.
- Mae'r darpariaethau ar gyfer talu iawndal i staff yn seiliedig ar ragamcanion o'r taliadau pensiwn a ddisgwylir yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio'r gyfradd ddisgownt berthnasol fel y'i pennir gan Drysorlys EM.
- Darpariaeth ddadfeilio yw'r asesiad o'r gost debygol o gywiro dadfeilio o dan delerau les Tŷ Hywel. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr adeilad a brydlesir ganddo yn cael ei gadw i'r fath safon fel nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio cyffredinol ar hyn o bryd, gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw a'r adolygiad blynyddol a chytuno â'r flaenraglen waith 10 mlynedd.
- Yn ystod 2016-17, neilltuwyd £120,000 yn benodol ar gyfer cael gwared ar y pontydd rhwng Tŷ Hywel a'r Senedd ac i drwsio wal Tŷ Hywel wedi hynny.

02. A – Costau cysylltiedig Aelodau a staff

Ceir gwybodaeth am yr Aelodau a niferoedd staff (a gwybodaeth berthnasol arall) yn yr Adran Atebolrwydd – Adroddiad ar Daliadau a Staff.

Costau cysylltiedig Aelodau a staff

Mae costau staff yn cynnwys:

	Staff	Aelodau a deiliaid swyddi	Cyfanswm 2016-17	Cyfanswm 2015-16
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau				
Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi	14,650	5,631	20,281	18,607
Staff dros dro ac asiantaeth	672	-	672	376
Staff ar secondiad	126	-	126	162
Costau nawdd cymdeithasol				
Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi	1,530	591	2,121	1,632
Staff dros dro ac asiantaeth	39	-	39	14
Staff ar secondiad	17	-	17	15
Costau pensiwn eraill				
Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi	3,082	779	3,861	3,995
Staff dros dro ac asiantaeth	93	-	93	45
Staff ar secondiad	15	-	15	26
Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff	20,224	7,001	27,225	24,872
Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol	(156)	-	(156)	(156)
Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff	20,068	7,001	27,069	24,716

Yn ystod y flwyddyn, canfuwyd dau daliad o gyfnodau blaenorol, 2003 a 2011, a oedd wedi'u talu mewn camgymeriad. Yn unol â'r canllawiau ar reoli arian cyhoeddus, ac oherwydd yr amser a aeth heibio, natur y taliadau, a bod y taliadau wedi'u talu a'u derbyn yn ddiwyll, nid yw'r Comisiwn yn bwriadu hawlio'r arian yn ôl.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2017, roedd 60 Aelod Cynulliad mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 26 o ddeiliaid swyddi (heblaw Gweinidogion), un Prif Weinidog, un Arweinydd y Tŷ a Phrif Chwip, chwe Ysgrifennydd Cabinet, tri Gweinidog ac un Cwnsler Cyffredinol.

Yn ystod 2016-17, cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) £52.036 miliwn o adnoddau gan Gronfa Gyfunol Cymru i ariannu'r gwaith o weinyddu a gweithredu

gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac eitemau eraill, fel y nodwyd yng Nghwmpas y Gyllideb ar gyfer 2016-17 Comisiwn y Cynulliad. At hynny, ac fel y nodwyd ar dudalen 110 o'r datganiadau ariannol, defnyddiodd y Comisiwn £706,670 o adnoddau o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu taliadau uniongyrchol, gan gynnwys £153,000 o ran cyflog Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ym mis Mai 2016, cafodd taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru o ran cyflog yr Archwilydd Cyffredinol eu hatal pan ddaeth i'r amlwg fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi methu â bodloni'r trefniadau deddfwriaethol sy'n ofynnol ar gyfer ei daliadau o dan y darpariaethau trosiannol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Nodwyd yr amryfusedd gan Gomisiwn y Cynulliad a chafodd ei unioni ar 14 Gorffennaf 2016, yn dilyn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Prif Weinidog Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, pan wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru drefniadau o dan Adran 7(6) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 er mwyn cymeradwyo parhad y taliadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2016, i ddechrau defnyddiodd Comisiwn y Cynulliad adnoddau a ddarperir ar gyfer y gwaith o weinyddu a gweithredu gwasanaeth y Cynulliad ac eitemau eraill i ariannu cyflog yr Archwilydd Cyffredinol.

Cafodd y gwariant hwn, sef cyfanswm o £33,486, ei ad-dalu yn ddiweddarach drwy ddefnyddio Cronfa Gyfunol Cymru ac felly mae'r sefyllfa ariannu ar ddiwedd y flwyddyn a ddangosir yn y datganiadau ariannol hyn yn gywir.

Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Yn 2016–17, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £3.161 miliwn (£2.996 miliwn yn 2015–16) yn daladwy ar un o bedair cyfradd rhwng 20 y cant a 24.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar y bandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl i'r cynllun gael ei brisio'n llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Ers 1 Ebrill 2015 caiff cyflogeion newydd ymuno â naill ai'r cynllun *alpha* neu gynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw *alpha*; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Pan baratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £1,215 (£3,147 2015–16) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalau bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan a ganlyn:

www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a reolir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn darparu dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu budd-daliadau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, cyflwynodd y Bwrdd Taliadau gynllun pensiwn newydd i'r Aelodau, sy'n seiliedig ar gyfartaledd gyrfa (cynllun CARE). Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, a daeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021.

Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o un rhan o hanner canfed ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Y gyfradd gyfrannu yw 10.5 y cant ar gyfer aelodau newydd a'r rhai a drosglwyddodd i'r cynllun CARE ar 6 Mai 2016. Bydd aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021. Bydd yr aelodau hyn yn parhau i gyfrannu ar eu cyfradd bresennol o naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer cronïadau ar ddeugeinfed neu hanner canfed, yn eu trefn. Bydd y cyflogwr yn cyfrannu ar gyfradd o 15.6 y cant a bydd uchafswm ar ei gyfraniadau.

Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu a'r cyfraniad cyflogwr a wneir gan y Cynulliad ar hyn o bryd yw 15.6 y cant o gyflogau agregol yr Aelodau. Mae aelodau nad ydynt yn cael 'Diogelwch Trosiannol' yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5 y cant. Mae'r aelodau hynny sy'n cael 'Diogelwch Trosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6 y cant neu 10 y cant yn dibynnu a ydynt yn cronni budd-daliadau ar sail hanner canfed neu ddeugeinfed yn y drefn honno.

Caiff yr Oed Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oed Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oed ymddeol arferol sef 65 mlwydd oed.

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddi i'w rheoli. Cynhaliwyd prisiad actiwaraid llawn ar 1 Ebrill 2014 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Cynhaliwyd prisiad actiwaraid ar wahân pan orffenwyd Rheolau'r Cynllun i benderfynu ar y cyfraddau cyfrannu newydd ar gyfer aelodau a chyflogwyr o 6 Mai 2016 ymlaen.

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau i'w cael ym Mhenderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

Y prif amcan ariannu yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigon i ddarparu'r buddion a addawyd i'r aelodau a'u buddiolwyr. Dyma'r amcan a gynghorodd Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth gyngor yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am y buddion cronedig wrth i'r aelodau gymryd rhan yng nghynllun pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y taliadau y mae'n rhaid i'r Cynulliad eu gwneud am gronni buddion yn weddol sefydlog dros gyfnod. Eir i'r afael â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd gyfrannu a fynegir fel canran o'r cyflog pensiynadwy, a elwir y Gyfradd Gyfrannu Safonol. Mae'r gyfradd safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau o dan y Cynllun, os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau actiwaraid a wnaethpwyd. Gan ddbynnu ar faint y gronfa ac union brofiad y Cynllun, yn ôl yr hyn a ddateglir yn ystod y prisiad

actiwaraidd a gynhelir bob tair blynedd, mae'n bosibl y bydd angen talu cyfraniadau llai neu uwch am gyfnod er mwyn caniatáu, yn fwyaf penodol, ar gyfer gwargedau a diffygion amorteiddio.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn yn 1999 ac mae'n anaeddfed, gan fod yr incwm o'r cyfraniadau yn dal i fod yn uwch na'r buddion a delir allan yn rheolaidd. Hyd rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfartaledd, ac ar ôl eu pwysoli, yw tua ugain mlynedd.

Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

	Nodyn	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun		(49,456)	(38,352)
Gwerth teg asedau'r cynllun		33,713	29,669
Rhwymedigaeth net		(15,743)	(8,683)
Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol			
Rhwymedigaethau		(15,743)	(8,683)
Asedau		-	-
Rhwymedigaeth net	9	(15,743)	(8,683)

Dadansoddiad o'r swm a drosglwyddwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Cost gyfredol y gwasanaeth	1,472	2,146
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	1,364	1,290
Llog ar asedau'r cynllun	(1,043)	(970)
	1,793	2,466
Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:		
Costau pensiwn eraill	715	971
Costau cyllid pensiynau	1,078	1,495
	1,793	2,466

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)

	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	3,615	(1,041)
Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn	160	338
Newidiadau mewn tybiaethau	(9,757)	2,662
(Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE	(5,982)	1,959

Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill	38,352	38,175
Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau)	1,472	2,146
Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn)	632	429
Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn	(1,961)	(688)
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	1,364	1,290
(Enillion)/colledion actiwaraidd	9,597	(3,000)
Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth	49,456	38,352

Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Asedau ar 1 Ebrill	29,669	29,028
Llog ar asedau'r cynllun	1,043	970
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	3,615	(1,041)
Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	715	971
Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn)	632	429
Buddion a dalwyd a threuliau	(1,961)	(688)
Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth	33,713	29,669

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £737,282 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2017-18.

Dyma brif categorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

	2016–17	2015–16
Ecwitiâu	41.10%	44.52 %
Buddsoddiadau amgen	21.35%	21.25 %
Llog sefydlog ac arian parod	37.55%	34.23 %

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 7.0 y cant o bortffolio'r Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol wedi'i fuddsoddi mewn eiddo. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £3,349,415 yn 2016–17 (£2,827,137 yn 2015–16).

Y gwir adenillion o asedau'r cynllun yn 2016-17 oedd enillion o £4.767 miliwn (colled o £0.068 miliwn yn 2015-16).

Y prif dybiaethau actiwaraid ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Cyfradd y gostyngiad	2.65%	3.55 %
Cynnydd yn enillion y dyfodol – mwy na chyfradd y disgownt	-1.6%	-0.6 %
Cynnydd ym mhensiwn y dyfodol – mwy na chyfradd y disgownt	0.3%	1.30 %
Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd)		
Dynion	25.3	25.2
Menywod	26.9	26.8

Sensitifwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe byddai gwir gyfradd yr adenillion yn uwch na'r newidiadau mewn enillion 0.5 y cant y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraid yn newid tua 2 y cant, a byddai newid o tua £1.0 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Pe byddai gwir gyfradd yr adenillion yn uwch na'r newidiadau pensiwn 0.5 y cant byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraid yn newid tua 10 y cant, a byddai newid o tua £4.9 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraid tua 6 y cant a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £3.0 miliwn.

Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig	49,456	38,352	38,175	30,258	29,011
Asedau'r cynllun	33,713	29,669	29,028	25,486	23,960
Rhwymedigaeth net	(15,743)	(8,683)	(9,147)	(4,772)	(5,051)
Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn	160	338	1,306	720	1,125
Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun	3,615	(1,041)	1,477	(282)	1,524

Mae rhagor o wybodaeth am **Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad** ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr Aelodau, sef £8.696 miliwn (£8.149 miliwn yn 2015-16), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

	2016–17 £'000	2015–16 £'000
Costau swyddfa	1,027	817
Costau ychwanegol	222	219
Costau staff yr Aelodau	7,213	6,862
Costau teithio	234	251
Cyfanswm costau eraill yr Aelodau	8,696	8,149

Mae costau staff yr Aelodau yn cynnwys dau daliad diswyddo yn 2016-17, sy'n gyfanswm o £10,000 (ni wnaed taliadau diswyddo yn 2015-16).

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynllun rhanddeiliaid grŵp (cyfraniadau diffiniedig) gydag AVIVA, ac mae'r Comisiwn yn cyfrannu 10 y cant o gyflog gros staff cymorth Aelodau'r Cynulliad i'r cynllun bob mis. Hefyd, gall gweithwyr ddewis gwneud cyfraniad misol rheolaidd. Roedd Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig gan mai dyddiad cyflwyno ailgofrestrriad y Cynllun oedd 1 Ionawr 2017. Y cyfraniadau pensiwn a dalodd y cyflogwr yn 2016–17 oedd £622,060 (£665,136 yn 2015-16).

02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Daeth tymor chwe blynedd Gerard Elias QC, y cyn Gomisiynydd Safonau, i ben ar 30 Tachwedd 2016. Dechreuodd ei olynydd, Syr Roderick Evans, yn y swydd ar 1 Rhagfyr 2016. Penodir i'r swydd am dymor penodol o chwe blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Syr Roderick Evans a'i waith ar gael yn <http://comisiynyddsafonau.cymru.org/>

Yn ystod 2016–17, cafwyd cyfanswm costau o £21,959 (£23,600 yn 2015–16) mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

Cafodd 212 awr â chost o £17,889 (251.5 awr â chost o £19,858 yn 2015–16) am waith y Comisiynydd ar gyfer 2016-17 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Cafodd 129 awr â chost o £4,070 (111 awr â chost o £3,742 yn 2015–16) ar gyfer costau staff i gefnogi gwaith y Comisiynydd ar gyfer 2016-17 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

02. D – Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Lansiodd Comisiwn y Cynulliad Gynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) ar draws pob maes gwasanaeth ar 19 Tachwedd 2015. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais oedd 8 Ionawr 2016. Cymeradwywyd cais 26 o bobl i ymadael, a phenderfynodd chwech ohonynt beidio â derbyn y cynnig.

Ar 31 Mawrth 2016, gadawodd dau o'r staff y cymeradwywyd eu cais ac roedd rhwymedigaeth ar y Comisiwn i wneud taliadau i 17 aelod arall o staff yn ystod 2016-17. Cyfanswm y rhwymedigaeth hon ar 31 Mawrth 2016 oedd £557,000. Cytunwyd ar y setliad a oedd yn weddill ar ôl 31 Mawrth 2016.

Talwyd yr 18 swm a oedd yn weddill, sef cyfanswm o £575,000, yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

Band costau'r pecyn ymadael	Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau 2016-17	Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau 2015-16
£0 - £20,000	1	7
£20,001 - £40,000	-	7
£40,001 - £60,000	-	-
£60,001 - £80,000	-	4
£80,001 - £100,000	-	-
£100,000 a throsodd:	-	1
Cyfanswm y pecynnau ymadael	1	19
Cyfanswm costau'r adnoddau (£000' oedd)	18	643

Ni wnaed taliad diswyddo i staff y Comisiwn yn 2016-17, ar wahân i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

Yn 2015-16, gwnaed taliadau diswyddo arbennig, sef cyfanswm o £93,000, a oedd yn uwch na thelerau safonol y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, i ddau aelod o staff fel rhan o becynnau o setliadau a negodwyd. Talwyd y symiau hyn yn ystod 2016-17. Roedd un o'r rhain, sef £70,000, yn ymwneud â Chyfarwyddwr, ac mae felly wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Daliadau a Staff.

03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £18.7 miliwn (£18.2 miliwn yn 2015–16) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

	2016–17 £'000	2015–16 £'000
Lesau – adeiladau	2,828	2,828
Lesau – eraill	101	108
Costau adeiladau a chyfleusterau	7,319	6,351
Costau TGCh	3,318	2,561
Treuliau gweinyddol	1,840	1,842
Costau cysylltiedig â staff	663	1,176
Costau gweinyddol eraill	16,069	14,866
Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad	2,614	3,340
	18,683	18,206

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £62,958 (£66,250 yn 2015-16). Ni chynaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2016-17 (£2,650 yn 2015-16).

Mae rhagor o esboniad am y symudiadau rhwng 2016-17 a 2015-16 yn SOS 01 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net ar dudalennau 108 i 109.

04. Eiddo, offer a chyfarpar

	Tir ac adeilada u	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a gosodiadau*	Cerbyda u	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	2016-17 £'000 Cyfanswm
Cost neu brisiant						
Ar 1 Ebrill 2016	63,464	14,078	1,701	80	366	79,689
Ychwanegiadau	-	636	-	-	-	636
Ailddosbarthwyd	-	366	-	-	(366)	-
Ailbriso	(1,823)	-	-	-	-	(1,823)
Ar 31 Mawrth 2017	61,641	15,080	1,701	80	-	78,502
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2016	(3,314)	(12,046)	(1,039)	(80)	-	(16,479)
Costau yn ystod y flwyddyn	(1,656)	(711)	(90)	-	-	(2,457)
Ailbriso	4,970	-	-	-	-	4,970
Ar 31 Mawrth 2017	-	(12,757)	(1,129)	(80)	-	(13,966)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017	61,641	2,323	572	-	-	64,536
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2016	60,150	2,032	662	-	366	63,210

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrlysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2017, yn unol â Safonau Priso Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbriso ar gost adnewyddu dibrisiedig (DRC) fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd dull y prisiwr o weithredu yn cynnwys cyfrifo'r gost o godi adeiladau modern cyfatebol a dibrisio'r gost i roi cyfrif am oedran yr adeiladau a'u hoes economaidd yn y dyfodol.

Ni wnaeth yr adolygiadau o nam ganfod unrhyw arwyddion o nam ar yr adeiladau ar 31 Mawrth 2017, ac felly nid oes namau wedi'u cydnabod.

	Tir ac adeiladau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a gosodiadau*	Cerbydau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	2015-16 £'000 Cyfanswm
Cost neu brisiant						
Ar 1 Ebrill 2015	63,464	13,685	1,674	80	267	79,170
Ychwanegiadau	-	164	6	-	366	536
Gwaredwyd	-	(17)	-	-	-	(17)
Ailddosbarthwyd	-	246	21	-	(267)	-
Ar 31 Mawrth 2016	63,464	14,078	1,701	80	366	79,689
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2015	(1,657)	(10,847)	(940)	(80)	-	(13,524)
Costau yn ystod y flwyddyn	(1,657)	(1,216)	(99)	-	-	(2,972)
Gwaredwyd	-	17	-	-	-	17
Ar 31 Mawrth 2016	(3,314)	(12,046)	(1,039)	(80)	-	(16,479)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	60,150	2,032	662	-	366	63,210
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015	61,807	2,838	734	-	267	65,646

05. Asedau annirweddol

Mae'r asedau annirweddol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

	Meddalwedd	2017 Cyfanswm £'000
Cost neu brisant		
Ar 1 Ebrill 2016	2,317	2,317
Ychwanegiadau	-	-
Gwardwyd	-	-
Ar 31 Mawrth 2017	2,317	2,317
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2016	(2,054)	(2,054)
Costau yn ystod y flwyddyn	(157)	(157)
Gwardwyd	-	-
Ar 31 Mawrth 2017	(2,211)	(2,211)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017	106	106
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2016	263	263
	Meddalwedd	2016 Cyfanswm £'000
Cost neu brisant		
Ar 1 Ebrill 2015	2,367	2,367
Ychwanegiadau	-	-
Gwardwyd	(50)	(50)
Ar 31 Mawrth 2016	2,317	2,317
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2015	(1,736)	(1,736)
Costau yn ystod y flwyddyn	(368)	(368)
Gwardwyd	50	50
Ar 31 Mawrth 2016	(2,054)	(2,054)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	263	263
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015	631	631

06. Symiau masnachol a symiau i'w derbyn

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:		
Symiau masnachol i'w derbyn	48	89
Symiau eraill i'w derbyn	12	13
Rhagdaliadau	1,369	1,241
TAW y gellir ei hadennill	336	247
	1,765	1,590

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	236	119
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	(162)	117
Balans ar 31 Mawrth	74	236
Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan:		
RBS	58	110
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	16	126
Balans ar 31 Mawrth	74	236

08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn		
TAW	13	9
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	733	679
Symiau masnachol taladwy	1,156	588
Croniadau	2,912	3,826
Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	74	236
	4,888	5,338

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000	Darpariaeth ar gyfer tâl digolledu i staff £'000	Darpariaeth ar gyfer dadfeiliad £'000	2016-17 Cyfanswm £'000	2015-16 Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill	8,683	23	-	8,706	9,253
Cynnydd yn y ddarpariaeth	5,982*	-	120	6,102	(1,998)
Costau cyllid pensiynau	1,078	-	-	1,078	1,495
Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	-	(23)	-	(23)	(44)
Balans ar 31 Mawrth	15,743	-	120	15,863	8,706

* (enillwyd £1.959 miliwn – 2015–16).

O dan Safon Archwilio Ryngwladol 19, caiff rhwymedigaeth o £15,743,000 ei chydabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Nodyn 02.A. Mae gwybodaeth ychwanegol am y taliadau iawndal a'r darpariaethau dadfeiliad yn yr adran darpariaethau yn Nodyn 01 – datganiad am y polisiau cyfrifyddu.

O gyfanswm y ddarpariaeth o £15.863 miliwn (£8.706 miliwn yn 2015–16), nid oes disgwyl i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn. (£0.023 miliwn – 2015-16).

10. Ymrwymïadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymïadau cyfalaf o dan contract ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2016.

11. Ymrwymïadau o dan lesau

(a) Lesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymïadau o dan lesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£'000	£'000
Mae'r rhwymedigaethau o dan lesau gweithredol yn cynnwys:		
Dim hwyrach na blwyddyn	2,795	2,795
Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	11,057	11,092
Yn hwyrach na phum mlynedd	27,668	30,428
	41,520	44,315
Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr:		
Dim hwyrach na blwyddyn	88	84
Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	-	81
	88	165

Mae'r Comisiwn yn cael incwm mewn cysylltiad â lesau gweithredol tir ac adeiladau. Caiff yr incwm hwn ei ddatgelu fel Incwm Rhentu Llety o fewn SOS 2.

(b) Lesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau cyfredol o dan lesau ariannol.

12. Ymrwymïadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn contractau sy'n cyfeirio at derfynu contractau'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i contract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

13. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthycu arian gan neb arall. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

14. Rhwymedigaethau amodol

a) Cyfraniadau pensiwn

Mae gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau contractiol i swm sy'n cyfateb i 10 y cant o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at pensiwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'i hamcangyfrifir fel a ganlyn:

Cyfraniadau pensiwn ar gyfer staff cymorth yr Aelodau sydd:	Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2017 £'000	Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2016 £'000	Swm a dalwyd yn 2016-17 £'000	Sylwadau
Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn	3	2	-	Annhebygol iawn
Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed	41	46	-	Annhebygol iawn

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

15. Teithio a chynhaliaeth gan Gyfarwyddwyr

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf:

Tudalen y pecyn 260	Claire Clancy <i>Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad</i>		Adrian Crompton <i>Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad</i>		Dave Tosh <i>Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad</i>		Elisabeth Jones <i>Prif Gyngorydd Cyfreithiol</i>		Craig Stephenson <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn</i>		Nicola Callow <i>Cyfarwyddwr Cyllid (tan 21 Ebrill 2016)</i>	
	2016-17	2015–16	2016-17	2015–16	2016-17	2015–16	2016-17	2015–16	2016-17	2015–16	2016-17	2015–16
		£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Milltiroedd mewn car	85	303	170	-	-	-	198	81	-	-	-	110
Tacsi / llogi car / costau cysylltiedig	35	154	-	-	-	-	80	119	70	49	-	-
Teithio awyr / costau cysylltiedig	226	139	-	-	175	-	982	265	-	3,848	-	-
Trafnidiaeth gyhoeddus	276	471	364	959	-	107	451	836	4	510	-	-
Llety	148	291	-	-	119	60	551	452	-	2,885	-	-
Cynhaliaeth / treuliau	66	5	-	-	-	-	334	171	28	419	-	-
Cyfanswm	836	1,363	534	959	294	167	2,596¹⁸	1,924	102	7,711¹⁹	-	110

¹⁸ Mae'r costau teithio yn 2016-17 yn adlewyrchu'n bennaf yr angen am deithio dramor i gefnogi'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yng nghyd-destun ei waith yn ymwneud â phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, a theithio mewnol yn y DU yn ymwneud â gwaith ar Fil Cymru 2016-17, a gweithredu'r setliad datganoli newydd i Gymru a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth honno.

¹⁹ Mae'r costau teithio yn 2015-16 yn cynnwys costau teithio mewn awyren a llety wrth gefnogi'r Llywydd ar ymweliad â gwlad dramor.

16. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (gweler yr **Adroddiad ar daliadau a staff**). Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Roedd y cyn Ddirprwy Lywydd, David Melding, a Peter Black, un o Gomisiynwyr y Pedwerydd Cynulliad, yn ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad tan 6 Mai 2016. Wedi hynny, penodwyd Suzy Davies, un o Gomisiynwyr y Pumed Cynulliad, yn un o gynrychiolwyr y Comisiwn ar y Bwrdd Pensiwn ar 16 Mehefin 2016. Ar 22 Chwefror 2017, cymerwyd lle Suzy Davies fel cynrychiolydd y Comisiwn gan Joyce Watson, sydd hefyd yn Gomisiynydd.

At ddibenion tryloywder, cofnodir y mân daliadau a ganlyn:

- Gwnaed taliadau o £5,295.41 i Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn ystod 2015-16 (£0 yn 2016-17) am wasanaethau a gafwyd ganddo ee casglu gwastraff ac ardrethi. Mae Peter Black, a oedd bryd hynny'n Gomisiynydd, yn gynghorydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe.
- Talwyd £11,728.90 i Brifysgol Abertawe yn ystod 2015-16 (£0 yn 2016-17) am drwyddedau cefnogi WVN. Mae Peter Black, a oedd bryd hynny'n Gomisiynydd, yn aelod o Lys Llywodraethwyr Prifysgol Abertawe.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Cynulliad. Caiff Aelodau'r Cynulliad gyflogi aelodau o'r teulu fel eu staff cymorth. Fodd bynnag, caniateir hyn yn unig pan na fydd yr Aelod Cynulliad yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol deg ac agored, a gaiff ei chynnal gan staff y Comisiwn ar eu rhan.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisiau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn www.cynulliad.cymru a www.assembly.wales.

- ▼ Yn 2016-17, cynaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau yn y Senedd.



Atodiad: Adroddiadau rheoleidd-dra



Adroddiadau rheoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei hawdurdodi gan y Cynulliad drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiadau a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2016-2017 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r (gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Gofyniad arian parod net	(51,962)	(46,255)
O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol	52,038	46,500
Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio	(2)	(9)
Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	(236)	(119)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod	(162)	117

SOS 4 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

	Nodyn	Y gyllideb £'000	Alldro £'000	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) £'000	Alldro 2015-16 £'000
Alldro Adnoddau Net	SOS 01	55,938	55,292	646	52,230
<u>Addasiadau cronïadol</u>					
Eitemau nad ydynt yn arian parod	Gweler isod	(4,500)	(3,692)	(808)	(4,835)
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod		600	362	238	(1,140)
Gofyniad arian parod net		52,038	51,962	76	46,255

<i>Eitemau nad ydynt yn arian parod</i>	Nodyn	Y gyllideb £'000	Alldro £'000	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2016-17 £'000	Alldro 2015-16 £'000
Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod	4 a 5	(3,000)	(2,614)	(386)	(3,340)
Cost cyllid Pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth		(1,500)	(1,078)	(422)	(1,495)
		(4,500)	(3,692)	(808)	(4,835)

SOS 5 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

	Y gyllideb 2016-17 £'000	Alldro 2016-17 £'000	Alldro 2015-16 £'000
Incwm gweithredu y gellir ei gadw	400	163	190
Is-gyfanswm	400	163	190
Swm a gadwyd	400	163	190
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	-	-	-

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2016-17 (dim yn 2015-16).

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon